tafod elái

MAI 2024

Rhif 387

Pris £1

## Eisteddfod Genedlaethol 2024

Wrth i fi ysgrifennu'r pwt hwn, rydyn ni wedi cyrraedd carreg filltir bwysig arall – 100 Diwrnod i Fynd. Mae'n anodd credu. Ac mae'n anodd credu hefyd cymaint mae'r Gronfa Leol yn codi o fis i fis. Yn swyddogol ar bapur heddiw rydyn ni wedi codi £192,000, ond mae'n debygol o gyrraedd £200,000 cyn i Tafod Elái ddod o'r wasg. Diolch yn fawr iawn i bawb ar draws yr ardal sy'n gweithio mor galed i godi arian – yn trefnu ac yn cefnogi digwyddiadau, yn gwerthu tocynnau raffl a nwyddau. Yr apêl yw'r un arferol - os gwyddoch am unrhyw fusnesau neu unigolion a hoffai gefnogi'r Eisteddfod, rhowch wybod.

Newyddion gwych oedd clywed bod Llywodraeth Cymru am gyfrannu £385,000 i dargedu teuluoedd difreintiedig i allu dod i'r Maes am ddim ac erbyn hyn mae manylion y cynllun ar gael. Bydd y broses ddyrannu'n blaenoriaethu:

Teuluoedd sydd â disgyblion 6-16 oed ac sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Bydd unrhyw un sy'n 5 oed neu iau cyn 11 Awst 2024 eisoes yn gymwys i gael mynediad am ddim.

Teuluoedd sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (WIMD).

Er mwyn cofrestru diddordeb, dylid cwblhau'r ffurflen yma ar-lein – www.rctcbc.gov.uk/TocynTeuluEisteddfodRhCT. Y dyddiad cau ar gyfer cofrestru eich diddordeb yw dydd Gwener 24 Mai 2024.

Byddwn ni'n gwerthu tocynnau raffl yn y digwyddiadau isod:
18 Mai Gŵyl Fach y Fro. 30 Mai Eisteddfod yr Urdd. 13+14 Gorffennaf Tafwyl

Bydda i'n trefnu rota ar gyfer y stondinau. Rhowch wybod os gwelwch chi'n dda os gellwch chi helpu (prosserh@btinternet.com neu helen.prosser@dysgucymraeg.cymru).

**Cinio'r Tri Chwm**
Nos Iau, 20 Mehefin byddwn yn cynnal Cinio'r Tri Chwm gan ddefnyddio bwytai Coleg y Cymoedd yn Ystrad, Nantgarw ac Aberdâr. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn fuan.

**Rhowch nodyn yn eich dyddiadur:**
12:00 Dydd Gwener 14 Mehefin - Tocynnau Sioe Nia Ben Aur yn mynd ar werth ar wefan yr Eisteddfod.

EISTEDDFOD Rhondda Cynon Taf 3 – 10 Awst 2024 — Codi Hwyl, Codi Calon a Chodi Arian!

7 Mai. Cyngerdd Côr Merched Taf Elái gydag ysgolion lleol am 7pm yn Ysgol Gymuedol Tonyrefail
10 Mai. Sgwrs a Chân gyda Delwyn Siôn ym Mhenderyn.
11 Mai Taith Gerdded 2yp o'r Griffin Inn, Gilfach Goch.
11 Mai. Noson Owain Glyndŵr, 7.30yh Neuadd yr Eglwys, Creigiau.
18 Mai. Taith Gerdded Llanfabon.
21 Mehefin. Gyrfa Chwist a Physgod a Sglodion. Tonyrefail.
23 Mai. 'Cwm Rhondda Elwyn Thomas' gyda Siôn Thomas Owen. 6yh yn Storyville Books, Pontypridd.
25 Mai. Bronwen Lewis. 7.30yh Garth Olwg.
31 Mai. Cystadleuaeth Golff, Clwb Golff Pontypridd.
9 Mehefin Sêl Cist Car yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail.
10 Mehefin. Noson yng nghwmni Delwyn Siôn, Capel Green Street, Aberdâr.
14 Mehefin. Cyngerdd Côr Meibion Pendyrus, Capel Carmel, Treherbet.
29 Her Tri Chopa.

## Cymorth gan Gronfa Glyndŵr



Mae disgyblion ac aelodau o gymuned Ysgol Llanhari wedi bod yn brysur yn cymryd rhan mewn fideo hyrwyddo addysg Gymraeg yn ddiweddar o dan gyfarwyddyd medrus Elin Mannion o Benybont. Rydym yn ddiolchgar am haelioni Cronfa Glyndŵr. Mae'r ysgol wedi derbyn grant o £1000 oddi wrth Cronfa Glyndŵr tuag at gostau y fideo.

Elusen yw Cronfa Glyndŵr a sefydlwyd yn 1963 gan Trefor a Gwyneth Morgan i hyrwyddo addysg Gymraeg a chynnig cymorth i rieni sydd eisiau i'w plant fwynhau manteision addysg ddwyieithog. Ei nod yw 'gwneud gwahaniaeth'. Felly, mae'r Gronfa yn cynnig grantiau i gylchoedd Meithrin a Ti a Fi, ysgolion cyfrwng Cymraeg a Mentrau Iaith i'w helpu i farchnata eu darpariaeth ac i wella eu hadnoddau. Mae'r Gronfa yn ddiolchgar iawn i'r noddwyr hael sy'n eu cefnogi yn ariannol, oherwydd hebddynt ni fyddai modd i'r Gronfa ddiwallu'r galw. Byddai'r Gronfa wrth eu bodd yn denu rhagor o noddwyr i'w cefnogi. Ceir fwy o wybodaeth ar eu gwefan www.cronfaglyndwr.cymru Edrychwn ymlaen at weld y cynnyrch terfynol!



# tafod elái


***GOLYGYDD***
***Penri Williams***
***029 20890040***

***CYHOEDDUSRWYDD***
***Colin Williams***
***029 20890979***

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Mehefin
i gyrraedd erbyn
25 Mai 2024

**Y Golygydd**
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
**e-bost**
pentyrch@tafelai.com

*Tafod Elái ar y wê*
**http://www.tafodelai.cymru**

***Argraffwyr:***
EVANPRINT
***www.evanprint.co.uk***



CYMRAEG
***Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru***



**Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro**

**Andrew Reeves**

**Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes**

**Ffoniwch**

**Andrew Reeves**
**01443 407442**
**neu**
**07956 024930**

**I gael pris am unrhyw waith addurno**




## Merched y Wawr
## Cangen y Garth

**Siwan Hill** â'i chasgliad llestri
**Gaudy Welsh**

Buom yn ffodus iawn i gael cwmni Siwan yn ein cyfarfod Merched y Wawr mis Ebrill. Daeth â stôr o lestri hardd, llestri prin - pob un â'i stori - er mwyn rhannu 'chydig o hanes cynhyrchu'r llestri diddorol yma. Debyg bod yna dros dri chant wythdeg o wahanol batrymau i'r Gaudy Welsh - ond yr hyn a nodweddir y cyfan yw'r lliwiau llachar - oren, glas cobalt ac aur neu wyrdd ar gefndir gwyn.



Siwan Hill a'i llestri hardd

Hyd at 1760 deuai'r rhan helaethaf o borslen cain o'r Dwyrain ac er mwyn ysgogi cynhyrchu crochenwaith yma ym Mhrydain gosododd y llywodraeth drethi mewnforio hallt iawn ar gynnyrch y Dwyrain. Datblygodd crochendai niferus yma ym Mhrydain yn sgîl y galw cynyddol am dseina a phorslen gyda llawer o'r crochendai adnabyddus yn copio patrymau'r Imari. Cynhyrchwyd tseina o'r ansawdd uchaf gan gwmniau megis Coalport, Davenport, Spode, Chelsea, MInton, Worcester - ac er taw byr eu hoedl - Abertawe a Nantgarw.

Roedd y crochendai Cymreig yn eu hanterth rhwng 1800 a 1820. Llestri ar gyfer y bonedd a gynhyrchwyd gan y crochendai uchod ond dyheai'r werin bobl am berchen ar lestri cyffelyb ond mwy fforddadwy., felly sefydlwyd crochendai a gynhyrchai lestri cymharol rad a lliwgar yn ardal Swydd Stafford, Sunderland a Newcastle. Llestri oedd yn drwm dan ddylanwad patrymau'r Imari. Caent eu hadnabod fel y Gaudy Dutch, Gaudy Ironstone, Gaudy Staffordshire a'r Gaudy Welsh. Abertawe oedd man cynhyrchu'r Gaudy Welsh rhwng 1764 a 1870.



Mae'n stori hynod ddiddorol - diolch i Siwan am ei rhannu gyda ni, a diolch i Marian Evans am ein cyflwyno i ddau lyfr arobryn gan Monica A. South - 'Gaudy Welsh - A Visual Reference Volume 1 a 2'. Werth chwilio amdanynt a werth chwilio hefyd ymhlith eich gwaith tseina cain chi rhag ofn bod gennych chi un o'r patrymau prin Gaudy Welsh! Maent yn drysorau!

Cyfarfod nesa - p'nawn Mercher Mai'r 22ain. Clwb Rygbi Pentyrch am ddau. Siân Lewis, Prifweithedwr Urdd Gobaith Cymru fydd yn galw heibio i dderbyn ein cyfraniad ni at brosiect noddi profiad o wythnos yn un o wersylloedd yr Urdd i berson ifanc haeddiannol - a rhannu gair o brofiad. Sgarffau a jingilarins - dewch â nhw! Diolch o galon am yr hyn a dderbyniwyd hyd yma!

## CLWB Y DWRLYN

**Noson Gerddorol gyda**
**Geraint Cynan**

8yh Nos Iau
23 Mai 2024

Clwb Rygbi Pentyrch
*Manylion pellach:*
clwbydwrlyn@pentyrch.cymru

## Noson Owain Glyndŵr

**Dewch i ddysgu am hanes**
**Owain Glyndŵr**
**a Gêm newydd Geraint Thomas.**
**Noson o Hwyl i'r Teulu Cyfan**

**Nos Sadwrn Mai 11eg 7.30yh**
**Neuadd yr Eglwys, Creigiau.**

**Bydd bar ar gael ar y noson.** **£10 y tocyn / Plant £3**

Elw i gyd tuag at: EISTEDDFOD Rhondda Cynon Taf




Tocynnau gan: Teleri Jones; Ann Angell; Nia Parker; Bethan Herbert (telerij@yahoo.com)
Trefnir gan Clwb Gwawr Crotesi Creigiau a'r Cylch

# Ar drywydd llên yn Rhondda Cynon Taf - 6

Dywedais y byddwn yn sôn ychydig y tro yma am rai eraill o lenorion Cylch Cadwgan a fu'n cyfarfod ar aelwyd J. Gwyn Griffiths a'i wraig Kate Bosse-Griffiths yn y Pentre yn y 1940au. Bydd yn amhosibl eu trafod i gyd, felly rwyf am ganolbwyntio ar Gareth Alban Davies, yr ifancaf ohonynt, a Kate Bosse-Griffiths, yr Almaenes a wnaeth gyfraniad mawr i ddiwylliant Cymru. Ond mae'n werth sôn, wrth fynd heibio, am gerdd o eiddo Pennar Davies, 'Yr Efrydd o Lyn Cynon' sy'n dychmygu hanes y dyn ifanc a gyfansoddodd 'Coed Glyn Cynon' yn y 16ed ganrif, sef y gerdd y buom yn sôn amdani wrth ddechrau ar y daith lenyddol hon drwy Rondda Cynon Taf.

**Gareth Alban Davies (1926-2009)**
Fe'i ganed yn Nhon Pentre yn fab i weinidog, ac ymunodd â'r Cylch yn fachgen ysgol. Aeth i Rydychen ar ôl yr Ail Ryfel Byd, a dilyn gyrfa academaidd ddisglair, gan ddod yn Athro yn Adran Sbaeneg Prifysgol Leeds, ac arbenigo ar Fernando Arrabal a Federico García Lorca, y bardd a'r dramodydd a lofruddiwyd gan Ffasgwyr Franco yn ystod Rhyfel Cartref Sbaen.



*Gareth Alban Davies. Llun Y Lolfa*

Ond yn ystod y Rhyfel roedd wedi treulio cyfnod dan ddaear yn un o'r 'Bevin Boys', cyfnod a ddyfnhaodd ei gydymdeimlad â'r glowyr a gwerin bobl Cwm Rhondda. Roedd ganddo barch aruthrol at rai o'r glowyr hyn, fel y gwelwn yn ei gerdd 'I Ddathlu Richard Morris, Y Bronllwyn, Y Gelli, Cwm Rhondda'. Dyma fo'n creu darlun byw o'r olygfa yn y pwll, gyda'r glöwr doeth, y 'Socrates' deallus, fel petai ar lwyfan wedi ei oleuo, yn ateb cwestiynau ei gyd-lowyr:

> Ar awr ginio
> eisteddai Socrates yr hedin caled
> ar y bocs *tools* wrth y partin:
> y tywyllwch o gylch
> yn gwasgu'n drymach
> na'r gromen ddaear uwch ben ...
> y deuddeg lamp
> yn llifoleuo'r llwyfan ...
> Taflem y dadleuon ato fel pelau ...

Ac weithiau, câi'r bardd seiat bersonol ag ef:

> ... byddem yn trafod bywyd,
> y problemau mawr,
> holl ddrysi oes.

Mae'r un gerdd yn creu darlun hefyd o amodau arswydus y pyllau glo. Dychmygwch fod yn ddeunaw oed, ymhell, bell o dan y ddaear, yn clywed y pethau hyn:

> Clywem yn y pellter
> glec postyn yn gwingo dan y pwysau,
> neu garreg yn syrthio
> fel petai ei bywyd
> yn dibynnu ar hynny.

Ond, wrth gwrs, nid bywydau cerrig oedd yn y fantol. Gallwch ddarllen y gerdd gyfan yn *Cerddi'r Cymoedd*, gol. Manon Rhys, tt 112-3 neu yn *Cwm Rhondda*, gol. Hywel Teifi Edwards, tt 9-11.

Cyhoeddodd Gareth Alban Davies dair cyfrol o farddoniaeth, *Baled Lewsyn a'r Môr a Cherddi Eraill* (1964), *Trigain* (1986), a *Galar y Culfor* (1992), ac mae nifer o'r cerddi yn dod â ffresni dylanwadau Ewropeaidd i farddoniaeth Gymraeg. Cyhoeddodd hefyd gyfrolau am Awstralia a Phatagonia, a golygu cyfrol o farddoniaeth Sbaeneg a droswyd i'r Gymraeg.


Ochr yn ochr â'r cydymdeimlad â'r glöwr, mae dicter at y drefn gyfalafol yn amlwg yn ei waith. Un arall o'i themâu mawr yw anfarwoldeb a pharhad, ac, yng ngeiriau Alan Llwyd yn *Barddoniaeth y Chwedegau*, 'lle dyn byrhoedlog ym mhatrwm tragwyddoldeb amser, a thragwyddoldeb y Cread'. Ym marn Alan Llwyd, mae *Baled Lewsyn a'r Môr a Cherddi Eraill* 'ymhlith cyfrolau gorau'r degawd'.

**Kate Bosse-Griffiths (1910-98)**
Fel y soniwyd eisoes, yn ei chartref hi a'i gŵr yn y Pentre y byddai Cylch Cadwgan yn cwrdd. Mae'n debyg mai Kate oedd yn bennaf cyfrifol am y safbwyntiau Ewropeaidd a gâi le yn nhrafodaethau'r Cylch. Does dim rhyfedd bod y Gareth Alban ifanc wedi mwynhau bod yn aelod.

Roedd Kate wedi ei geni yn yr Almaen, yn Wittenberg, tref Martin Luther, a'i magu yn yr eglwys Lutheraidd. Ond roedd ei mam o dras Iddewig ac, oherwydd hynny, dioddefodd y teulu erlid diarbed



*Kate a Gwyn ar ddydd eu priodas, 1939*
*(hawlfraint Heini Gruffudd)*




cyn ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Bu farw ei mam, Kaethe Bosse mewn amgylchiadau enbyd yng ngwersyll-garchar Ravensbrück yn ystod gaeaf creulon 1945, ychydig cyn diwedd y Rhyfel. Mae *Yr Erlid,* llyfr Heini Gruffudd, un o feibion Kate a J. Gwyn Griffiths, am hanes y teulu adeg y Rhyfel yn un y dylem i gyd ei ddarllen.

Ar ôl cael gradd doethur yn y Clasuron ac Eifftoleg ym München/Munich yn 1935, bu Kate yn gweithio yn Amgueddfeydd Berlin, ond rhoddodd cydweithiwr iddi wybod i bennaeth yr adran am ei thras Iddewig, a bu'n rhaid i hwnnw ei diswyddo. Llwyddodd i adael yr Almaen a dod i Brydain yn 1936. Maes o law daeth i Rydychen a bu'n gweithio yn yr Ashmolean Museum. Yn Rhydychen yn 1938 y cyfarfu â J. Gwyn Griffiths; priododd y ddau a symud i'r Rhondda. Buan y meistrolodd Kate y Gymraeg. Magodd hi a'i gŵr ddau fab, sef Heini, a enwyd uchod, a Robat Gruffudd, sylfaenydd gwasg Y Lolfa a nofelydd.

Cafodd Kate yrfa lewyrchus a bu'n Guradur Anrhydeddus Amgueddfa Wellcome, Abertawe am 25 o flynyddoedd ac yn Geidwad Archaeoleg yn Amgueddfa'r ddinas. Cyhoeddodd nifer o lyfrau rhyddiaith yn y Gymraeg – y nofelau, *Anesmwyth Hoen* (1941) ac *Mae'r Galon wrth y Llyw* (1957, ac ailargraffiad gan wasg Honno yn 2016); cyfrolau o straeon byrion, *Fy chwaer Efa a storïau eraill* (1944), *Cariadau* (1995); yn ogystal â llyfrau ffeithiol gan gynnwys *Trem ar Rwsia a Berlin* (1962) a *Tywysennau o'r Aifft* (1970). Mae ei nofelau a'i straeon byrion yn canolbwyntio ar fywydau merched, ac ar bynciau a oedd yn anodd eu trafod yn y ganrif ddiwethaf, fel erthylu a godineb.

Os hoffech ddarllen rhagor amdani, ac os nad yw *Yr Erlid* wrth law, mae'n werth edrych ar Kate Bosse-Griffiths – Refugees from National Socialism in Wales (aber.ac.uk)

G.M.R.

# PONTYPRIDD

Gohebydd y mis: Margaret Francis

**Codi Arian ar gyfer yr Eisteddfod**
Dyma'r gweithgareddau a ddigwyddodd yn ystod yr wythnosau diwethaf:

Bingo'r Beirdd - Cafwyd noson hwyliog a gwahanol iawn yng nghwmni beirdd talentog ein hardal. Diolch o galon i Catrin Dafydd am arwain 'Bingo'r Beirdd', am y farddoniaeth slic a doniol, am y caneuon gwreiddiol a'r gwobrau Bingo. Cynhaliwyd ocsiwn o waith gwreiddiol Aneurin Karadog a'r 'top dog' a enillodd y gwaith oedd Elin Llywelyn-Williams.





Cyfraniadau - Diolch i unigolion, Merched y Wawr Merthyr am gyfrannu i'n cronfa. Mae sawl raffl wedi eu cynnal hefyd yn ystod y mis.

Gweithgareddau codi arian mis nesa - Mae Bethan Ford wedi bod yn brysur iawn yn codi arian drwy werthu 'hwdis' yn bennaf i edrych yn trendi, a hefyd i hysbysebu'r Eisteddfod. Diolch Bethan!

Noson cyri - Yn anffodus bu rhaid gohirio'r noson Cyri yn y Cinammon Tree tan fis nesaf!

Her Menter Mai - Ar gyfer her Menter Mai' dyma apêl Eurgain Thomas. Gwelir yr apêl hefyd ar dudalen Facebook Pwyllgor Apêl Pontypridd. Bydd cyfle i noddi'r her ar dudalen 'Just Giving'.

"O'i tharddiad yn y Bannau yn afonydd y Taf Fechan a'r Taf Fawr, mae taith yr afon Taf, lawr y Cwm, heibio Parc Ynysangharad ble y lleolir yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, oddeutu 30 milltir o'r fan cychwyn. Mae'n parhau ar ei thaith hyd at Bae Caerdydd. Fel rhan o fis heriau Menter Mai, mae aelodau a ffrindiau Pwyllgor Apêl Pontypridd yn awyddus i godi arian ar gyfer yr Eisteddfod. Bydd criw ohonom, rhyngom, a thros gyfnod o fis yn nofio pellter rhithiol y Taf hyd at Barc Ynysangharad, sef 30 milltir. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio adnodd lleol y Lido, canolfannau hamdden, ag afonydd y môr - pa gymaint o ffyrdd y gallwn ni greu digon o sblash i godi arian. Diolch am ein noddi"

**Tref Pontypridd**
Ers i nifer o'r banciau gau yn y dre, mae'n fwy anodd i ffeindio tyllau yn y wal i dynnu arian. Er gwybodaeth mae 5 peiriant ar gael yn y dref. Dyma nhw: Banc Lloyd's, Stryd y Farchnad. Santander Stryd Taff. Halifax Stryd y Felin. Tesco Express Stryd Taff. Nationwide, gyferbyn â Tesco Express. Hefyd cofiwch am Y Swyddfa Bost yn Stryd y Felin, ble gallwch chi gael arian dros y cownter.

Siom mawr i bawb bod Siop WH Smith's yn cau! Mae 'r siopau yn yr ardal yna nawr yn edrych yn eitha moel! Ond ar nodyn cadarnhaol gwelwn fod datblygiad top y dref yn dod ymlaen yn dda. Edrychwn ymlaen at gael cipolwg o'r parth cyhoeddus newydd yn safle'r hen Marks & Spencers.

**Dathliad!**
Penblwydd hapus iawn i Siôn Ifan a fydd yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeugain ym Mis Mai. Mae'n siŵr bydd Delyth a Graham wrth eu boddau yn dathlu gyda gweddill y teulu.

**Ymddeoliad**


Pob dymuniad da i Mair Thomas o'r Comin sydd wedi ymddeol yn ddiweddar. Mae Mair yn dod yn wreiddiol o Aberporth ac wedi dilyn gyrfa ym myd nyrsio. Treuliodd Mair ei hamser fel nyrs yn ardal Pontypridd. Cafodd ei chydweithwyr gyfle i ddangos eu gwerthfawrogiad o'i hymroddiad dros y blynyddoedd yn ddiweddar. Ymddeoliad hapus i ti Mair!

**Merched y Wawr**
Braf i'w dweud ein bod wedi croesawu 6 aelod newydd ers y Nadolig. Yng nghyfarfod Mis Ebrill cawsom noson greadigol iawn yng nghwmni Karen Evans, Caerffili. Mae Karen yn gyfrifol am y Galeri yng nghanol Caerffili ble mae'n arddangos ei gwaith ei hun ac artistiaid eraill. Mae hi wrth ei bodd yn cynnal gweithdai i greu lluniau o ddefnyddiau gwahanol.



Gweithdy Merched y Wawr

**Menter Mai**
(Eisteddfod Rhondda Cynon Taf )
Bydd pobl Rhondda Cynon Taf yn gosod 'Her a Hanner ' i'w hunain yn ystod Mis Mai ar gyfer ymgyrch codi arian yr Eisteddfod. Gellir gyfrannu swm personol o arian i gymeryd rhan neu gofyn i bobl eich noddi. Bydd nifer o'r aelodau'r gangen yn bwriadu cymeryd rhan. Mae Menna aelod o'r pwyllgor wedi meddwl am dasgau gwahanol i'w gwneud, megis tynnu llun o'r machlud, blasu bwydydd gwahanol i'r arfer, rhoi 5 dilledyn i elusen, yfed 8 glasied o ddŵr dros gyfnod o amser, yn ogystal â heriau cyffredin megis cerdded, rhedeg, nofio neu ddawnsio.

**Rhaglen deledu**
Braf i'w gweld golygfeydd cyfarwydd o dref Pontypridd yn y gyfres 'Creisis' (S4C) yn ddiweddar. Mae'n werth i'w weld!

**Clwb y Bont.**
Cafwyd noson wych yn ddiweddar yn gig Elin Fflur! Noson fendigedig. Dyma lun o Elin Fflur gyda Lleucu Real yn ei gig gyntaf!



Mike a Sian Ebbsworth yw gohebwyr mis Mehefin.



# O DAN YR WYNEB

**Martin Huws sy'n holi Gruffudd Owen y mae ei ddrama gomedi, *Parti Priodas*, yn cael ei pherfformio ledled Cymru.**

**Beth yw eich gwaith?**
Dw i'n gweithio ar fy liwt fy hun fel bardd, sgriptiwr teledu a dramodydd. Dw i hefyd yn cyflwyno'r gêm banel *Uffern Iaith y Nefoedd* ar BBC Radio Cymru.

**Pa waith arall ydych chi'n wneud neu wedi ei wneud?**
Mi roeddwn i'n gweithio fel golygydd sgript *Pobol y Cwm* am flynyddoedd. Cyn hynny rydw i wedi gweithio fel athro Cymraeg i oedolion, athro cynganeddu, Bardd Plant Cymru, actor, cyfieithydd, llyfrgellydd, barman, siopwr a saer maen. (Dyna pam bod gen i NVQ mewn gyrru tryc fforc lifft!)

**O ble rydych chi'n dod? Ble rydych chi'n byw nawr?**
Cefais fy magu yn Mhwllheli. Mi es i i'r brifysgol yn Aberystwyth ond ers 2009 rydw i'n byw yng Nghaerdydd (efo lot fawr o bobol eraill o Wynedd)

**Wnaethoch chi fwynhau eich addysg?**
Do, mae'n siwr! Faswn i ddim wedi dweud hynny ar y pryd ella gan mai sgolor digon diddrwg didda oeddwn i, ond mae'r gweithiau llenyddol 'nes i eu darllen yn Gymraeg a Saesneg yn yr ysgol wedi aros gyda mi.

**Pwy oedd a phwy yw'r dylanwadau mwya arnoch chi?**
Mae'n siwr bod Mam yn ddylanwad mawr arna i wrth dyfu fyny. Roeddan ni wastad yn mwynhau trafod beth oeddan ni yn ei ddarllen neu beth oeddan ni'n ei wylio ar y teledu.
Ers symud i Gaerdydd mae bod ar dîm Talwrn y Ffoaduriaid gyda Gwennan, fy ngwraig, a rhai o fy ffrindiau wedi bod yn ddylanwad mawr. Mae hi'n braf cael criw i rannu eich gwaith.

**Pam sgrifennu *Parti Priodas*?**
Mi ges i le ar gynllun Awduron Newydd y Theatr Genedlaethol ym Medi 2018. Mi ges i a saith awdur arall ein mentora a'n cefnogi ac o'r cynllun hwnnw y daeth drafft cynnar *Parti Priodas*.

**O ble daeth y syniad?**
Treulio lot o fy ugeiniau hwyr a 'nhridegau cynnar yn cicio sodlau mewn priodasau!

**Beth sy'n dod gynta, cymeriad neu blot?**
Yn achos *Parti Priodas*, y cymeriadau a'r sefyllfa (sef priodas gymysg o ran iaith yn Llŷn) ddaeth gynta. Mi gymrodd hi sawl drafft a misoedd o fireinio (ac un pandemig) i saernïo'r plot nes 'mod i'n hapus efo'r ddrama.

**Beth yw nod y gomedi?**
Gwneud i bobol chwerthin, gobeithio!



Dwi hefyd yn gobeithio bod y ddrama gomedi hon hefyd yn gyfrwng da i archwilio themâu anodd fel unigedd, colled, shifft ieithyddol, anobaith ac iselder.

**Yn fras, beth oedd y broses cyn ac yn ystod sgrifennu?**
Mi sgwenais i ddrafft cyntaf ar fy liwt fy hun ac wedyn trafod hwnnw gyda chyfarwyddwr y Theatr Genedlaethol ac roedd hynny'n brofiad gwerthfawr iawn. Fe esblygodd y ddrama lawer yn ystod y cyfnod yma.

**Beth oedd y broses ddatblygu?**
Ar ôl perfformiad sgript mewn llaw ym Mehefin 2019 mi wnaeth y Theatr Genedlaethol fy ariannu i ddatblygu'r ddrama ar gyfer Eisteddfod Boduan. Ond mi ddaeth y gwaith caib a rhaw go iawn wrth i'r cast a'r cyfarwyddwr ddechrau ymarfer. Roeddwn inna'n cael bod yn rhan o'r broses honno ac rydw i mor falch o'r ffordd mae'r sioe wedi datblygu.

**Beth yw heriau sgrifennu comedi? Ydy hi'n fwy anodd?**
I raddau, ella. Ond dwi ddim yn tueddu i wahaniaethu. Yn y bôn, sgwennu da ydi sgwennu da. Mae comedi yn eich gorfodi chi i wneud i bob gair weithio'n galed, ac mae hynny'n ymarfer da i unrhyw sgwennwr.

**Pam bod cyn lleied o gomedïau yng Nghymru?**
Oes 'na? Ella wir. Dwi wastad yn teimlo fel tasa 'na ddiffyg popeth yn y Gymraeg gan fod 'na a) gyn lleied ohonon ni a b) llai o arian nag y bu. Ond mae'n wir fod comedi, waeth beth fo'r cyfrwng, yn cymryd lot o egni ac adnoddau ac, os ydi rhywbeth ddim yn ddoniol, mae hynny'n siŵr o ddangos, ac wedyn mae'r peth wedi methu.
Mi faswn i'n sicr yn hoffi gweld mwy o gomedi yn y Gymraeg ond mae hynny yn gofyn am amynedd a buddsoddiad. Dwi mor ffodus fod y Theatr Genedlaethol wedi rhoi'r cyfle yma i mi. Fyddai'r ddrama fyth wedi digwydd oni bai am hynny.

**Beth yw eich barn am stad y theatr yng Nghymru?**
Ha! Wel, dyna gwestiwn annheg achos dwi bellach yn rhan o'r broblem! Ond mi fûm i'n mynychu'r theatr yn gyson ac yn adolygu am flynyddoedd maith felly mae gen i wastad farn.
Dwi wedi gweld lot o gynyrchiadau gwych yn ystod y ddwy ddegawd ddwytha, tipyn o gynyrchiadau diddrwg didda ac un neu ddau o bethau rhagorol o wael! Ond mae hynny'n arwydd o iechyd. Mae angen amrywiaeth ac mae angen i gelfyddyd gael y gofod i fethu.
Un gwyn gyson a glywir ydi bod 'na ddiffyg gweithiau newydd gan ddramodwyr cyfoes yn y Gymraeg a gorddibyniaeth ar gyfieithiadau ac addasiadau, ac mi fedra i gydymdeimlo efo hynny. Ond dwi'n gwybod o brofiad personol ei bod hi'n cymryd lot o amser ac ymdrech i feithrin sgwennu newydd. Gwell addasiad da na chynhyrchu rhywbeth newydd sydd ddim at y safon.
Ond er mwyn i mi gael canmol, mae tri o'r pethau gorau dwi wedi eu gweld yn ddiweddar ar lwyfan yn weithiau gwreiddiol sydd yn trafod bywyd yng Nghymru heddiw, sef *Tylwyth* gan Dafydd James, *Bachu* gan Melangell Dolma a *Croendena* gan Mared Llywelyn. O feddwl am y cynyrchiadau yma mae ganddon ni lot mwy o le i ddathlu nag i wangalonni.

**Pwy yw eich hoff ddramodydd? Pam?**
Yn y Gymraeg dwi'n ffan mawr o Aled Jones Williams a Wil Sam ac yn Saesneg rydw i wrth fy modd gyda gwaith Alan Bennett. Mae ystod pynciau ei ddramâu (nid jyst ei fonologau) yn ysgytwol ac maen nhw wastad yn ddoniol, yn dreiddgar ac yn deimladwy. Mae o'n arwr mawr i mi.

**Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i ddramodydd ifanc?**
Sgwennwch am yr hyn sy'n eich diddori chi – nid am yr hyn rydach chi'n meddwl y dyliwch chi fod yn sgwennu amdano.

**Beth sy ar y gweill?**
Rydw i'n gweithio ar ddrama abswrd gyda Bara Caws o'r enw *1936* fydd yn teithio yn yr hydref. Mae hi'n hollol wahanol i *Parti Priodas* gan mai drama am Hitler a Lloyd George ydi hi!

**Disgrifiwch eich hoff bryd bwyd**
Unrhyw bryd o fwyd y medra i ei fwyta mewn llonyddwch!

**Beth yw eich hoff weithgareddau amser hamdden?**
Beth ydi peth felly?! Cyn i mi gael plant roeddwn i'n arfer mwynhau cerdded mynyddoedd. Ella y ca i gyfle i wneud hynny eto, ryw ddydd.

Theatr Genedlaethol Cymru sy'n perfformio *Parti Priodas*. Yr actorion yw Mark Henry Davies a Mared Llywelyn a'r cyfarwyddwr yw Steffan Donnelly.



# LLANTRISANT PONTYCLUN MEISGYN

**Gohebydd: Gwilym ac Eleri Huws**

**Mwynhau yng Nghwmni Awdur**
Cafodd cangen Merched y Wawr gyfarfod gwerth chweil ar 17 Mai yng nghwmni'r awdur Gareth Thomas. Diolch iddo am ddod atom ac am fod mor fywiog ei gyflwyniad.

Ei nofel *Ar Adain Cân* oedd dan sylw ganddo, sef ei nofel Gymraeg gyntaf. Mae hi'n nofel sydd wedi derbyn clod uchel iawn. Pryd mae'r un nesaf, Gareth? Rhoddodd Gareth ddisgrifiad byr i ni o gefndir y nofel, a daethom i ddysgu cryn dipyn am gyfnod y nofel ac am rannau o'r Cymoedd. Datgelodd fod y cymeriadau a'r plot wedi'u seilio ar lawer o'r hanesion a gafodd gan George Crabb, 'bonheddwr y Bont-faen'. Roedd y lluniau a drefnwyd gan Gareth, a'r darnau o'r nofel a gyflwynwyd gan actorion yn fyw ar y sgrin, yn werthfawr iawn.



Mewn un llun mae Gareth yn trafod effaith y ffatri arfau ym Mhen-y-bont gyda Judith, ac yn y llall mae'n arwyddo ei nofel ar gyfer Judi.



**Te Prynhawn**
Ddydd Sadwrn 13 Ebrill, trawsnewidiwyd Neuadd Gymunedol Pontyclun yn lleoliad te prynhawn gyda bynting lliwgar yn hongian o'r nenfwd, llestri te hardd, a blodau ffres ar bob bwrdd. Yn ystod y digwyddiad, a drefnwyd gan y ddeuawd mam a merch, Bethan a Nia Donnelly, bu 60 o westeion yn mwynhau bwydlen oedd yn addas ar gyfer unrhyw westy o safon uchel. Gweinwyd amrywiaeth o frechdanau, bwydydd







sawrus a chacennau blasus, te, coffi a Prosecco. Cododd y digwyddiad £1,218.30 at Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y prynhawn.

**Da iawn, Alfie!**



Daeth newyddion gwych yn ystod y mis i Alfie Prygodzicz, Penygawsi, sydd wedi arwyddo gyda Phrentisiaeth Academi Rygbi Caerdydd. Mae Alfie wedi cael ei gydnabod fel un o chwaraewyr addawol y rhanbarth. Ni fydd hyn yn syndod i unrhyw un sydd wedi bod yn ei wylio ar y cae rygbi dros y blynyddoedd gyda chlwb rygbi Llantrisant, ysgol Llanhari ac YGGG Llantrisant, neu gyda rhanbarth Pontypridd. Edrychwn ymlaen at ei weld yn datblygu dros y tymhorau nesaf, a dymunwn bob llwyddiant iddo.

**Pnawn Cofiadwy**
Y darlledwr poblogaidd Roy Noble oedd y siaradwr gwadd yng nghyfarfod olaf tymor 2023/24 o Gylch Cadwgan – cyfarfod a drefnwyd gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant. Cawsom ein tywys gan Roy ar daith yn olrhain hanes ei fywyd o'i fagwraeth ym Mrynaman yn yr 1940au a'r 1950au, i'w gyfnod yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman ac yna'n fyfyriwr yng Ngholeg Addysg Cyncoed. Bu'n bennaeth ar ddwy ysgol gynradd erbyn ei fod yn ddeugain mlwydd oed cyn troi ei olygon at swydd llawn amser fel darlledwr.

Fel cyfathrebwr greddfol, ynghyd â'i hiwmor hunan-ddibrisiol unigryw a'i ddewis o storïau cofiadwy i'w hadrodd, roedd y gynulleidfa yn eu dyblau o ddechrau'i sgwrs i'w diwedd. Ymhlith y rhai oedd yn bresennol i fwynhau'r wledd roedd nifer o gyfoedion Roy o Ddyffryn Aman, ac roedd yn briodol mai dau o'u plith, sef Alun Wyn Bevan a Gwilym Treharne, a'i cyflwynodd a thalu diolch iddo am bnawn cofiadwy.

Yn groes i'r arfer, cynhaliwyd y cyfarfod y tro hwn am 3 y pnawn yn hytrach nag am 8 o'r gloch, ond byddai'r sawl a'i mynychodd wedi bod yn ddigon hapus eu byd petai wedi parhau'n i'n difyrru gyda'i hanesion carlamus hyd fachlud haul!

**Cydnabod Ymroddiad Degawdau**
Roedd dydd Sadwrn 14 Ebrill yn ddiwrnod arbennig iawn yn hanes Clwb Criced Miskin Manor pan gynhaliwyd agoriad swyddogol canolfan criced y clwb ar ei newydd wedd ym Mharc Glyn. Un o brif ragoriaethau'r clwb hanesyddol hwn yn ystod y cyfnod diweddar yw'r cyfleoedd a gynigir i blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn camp sy'n cael ei gwasgu mor ddidrugaredd ers blynyddoedd gan y duedd i ymestyn y tymor pêl-droed a rygbi i mewn i fisoedd yr haf. Tipyn o gamp, felly, yw denu cynifer o ieuenctid yr ardal i ymuno â'r clwb, ac mae gweld eu brwdfrydedd ar nosweithiau ymarfer yn bleser pur i bob un sy'n gwirioni ar griced.

Nid ar chwarae bach y mae cynnal cynifer o dimau i fechgyn a merched o wahanol grwpiau oedran, a da yw cael cefnogaeth barod rhieni ac aelodau o'r clwb i'r to sy'n codi. Ond mae ieuenctid clwb Meisgyn wedi eu bendithio ers degawdau lawer gan ymroddiad diflino un person sydd wedi cyfrannu'n fwy na neb i feithrin plant o oedran ifanc iawn i fwynhau criced ac i fireinio eu sgiliau, sef Keith Davies. Roedd hi'n briodol, felly, i'r clwb benderfynu rhoi'r enw 'Canolfan Griced Keith Davies' ar y rhwydi ymarfer newydd i gydnabod ei gyfraniad amhrisiadwy i'r clwb, a braf oedd gweld dros 100 o bobl yn bresennol i dalu teyrnged iddo ac yn dystion wrth ddadorchuddio'r enw ar fore'r agoriad swyddogol. Arwyddair y clwb yw 'Llafur a orfu popeth', a does dim dwywaith fod y geiriau hyn yn crisialu'n berffaith llwyddiant ei gyfraniad i griced ymhlith yr ifanc yn ei gymuned wrth greu'r amodau a alluogodd chwaraewyr dawnus ymhlith cenedlaethau o ferched a bechgyn i gynrychioli'r clwb, y sir a Chymru yn eu tro. Does rhyfedd yn y byd fod cymaint o barch iddo o fewn y clwb a thu hwnt.



## Ysgol Dolau



Twrnament pel-droed Morgannwg Ganol. Ymdrech arbennig o dda tîm Dolau!



Adnewyddu statws platenwm Eco Ysgolion am y pedwerydd tro! Da iawn Dolau!



Cystadleuaeth Gwenynen Geiriau Adran Iau yr Adran Gymraeg. Llongyfarchiadau mawr blant, gwaith sillafu gwych!



Cafodd Class 10 a Dosbarth 6 ymweliad gan y Grid Cenedlaethol a Mr Peilon! Dysgodd y plant fel mae trydan yn cael ei gynhyrchu a fel mae'n teithio at ein cartrefi. Dysgodd y plant am beryglon yn y gymuned leol.

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 15fed Ebrill 2024 cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Owain Beynon, cyn ddisgybl Ysgol Bro Myrddin, sydd nawr yn gweithio fel ymchwilydd ôl-ddoethuriol gyda'r Sefydliad Darganfod Defnyddiau ym Mhrifysgol Llundain. Mae Owain wedi dod yn enwog yn ddiweddar am wneud eu ddoethuriaeth mewn Cemeg ym Mhrifysgol Caerdydd yn uniaith Gymraeg. Yn ei sgwrs roedd yn sôn am ochr ddamcaniaethol Cemeg, cyfaddefodd nad yw wedi bod mewn labordy ers blynyddoedd! Mae e nawr yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn ei waith, sef technoleg sy'n galluogi cyfrifiaduron i efelychu deallusrwydd dynol i ddatrys problemau.

Esboniodd Owain ei fod yn defnyddio dau fodd o wneud efelychiadau (simulations) o adweithiau cemegol ar gyfrifiadur. Y modd manwl yw trwy ddefnyddio Mecaneg Cwantwm a'r modd cyflym, ond llai cywir, yw trwy fodelu y grymoedd mecanyddol rhwng atomau a molecylau. Dangosodd Owain fel y gellir hyfforddi rhaglen gyfrifiadurol i ddysgu canlyniadau efelychiad am ryw fewnbwn arbennig fel nad oes angen ail-adrodd yr arbrawf rhithiol. Gellir hefyd storio y canlyniadau yma mewn storfa gyhoeddus ar y rhyngrwyd i'w defnyddio eto gan arbed lot o amser cyfrifiadurol i Owain ac unrhyw un arall sydd am ddefnyddio y canlyniadau yma.

Aeth Owain ymlaen i esbonio fel gellir benthyg syniadau o athroniaeth, fel Ontoleg, i greu rheolau sy'n diffinio y berthynas rhwng gwahanol fathau o data. Mae hyn yn arwain at greu syniad gwell o ba ddata sydd angen i wneud rhyw efelychiad ac os yw peth data ar gael yn barod, gellir gwneud yr holl broses yn fwy effeithiol ac felly yn gyflymach. Trwy wneud hyn gellir gwneud efelychiadau manwl gywir y dull cwantwm mewn amser tebyg i'r efelychiadau llai manwl sy'n defnyddio grymoedd clasurol. I orffen, dangosodd Owain enghraifft ymarferol lle gellir defnyddio catalydd (catalyst) i droi gwastraff biolegol (biomass) i mewn i dannwydd adnewyddiadau. Yn lle gwneud cannoedd o arbrofion mewn labordy, gellir gwneud yr arbrofion ar gyfrifiadur fel efelychiadau cyfrifiadurol (computer simulations) gan arbed amser i bawb ac arwain y cemegwyr arbrofol at y llwybr mwyaf effeithiol. Diolch Owain, am gyflwyniad diddorol i faes newydd sy'n newid yn gyflym.

Rhys Morris



## TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
prosserh@btinternet.com

**Gŵyl Gerdd Tonyrefail**

Dydd Sadwrn, 20 Ebrill cynhaliwyd Gŵyl Gerdd lwyddiannus iawn yn siopau, busnesau a chlybiau Tonyrefail. Llongyfarchiadau i bawb fu'n rhan o'r trefnu. Parti'r Efail ddaeth â'r adloniant i ben yng Nghlwb y Glowyr.



**Pwyllgor Codi Arian Eisteddfod 2024**

Diolch yn fawr iawn i'r criw bach ond gweithgar sydd wrthi'n trefnu digwyddiadau yn Nhonyrefail a'r Gilfach Goch. Cafwyd llawer iawn o hwyl yn y Ras Hwyaid ar 13 Ebrill ac roedd cynulleidfa deilwng iawn i glywed Côr Merched Tonyrefail, y Gentlemen Songsters ac unawdwyr o Ysgol Gymunedol Tonyrefail ar 17 Ebrill.



**Côr Merched Tonyrefail yn codi arian i'r Eisteddfod**



**Paratoi ar gyfer y ras hwyaid yn y Gilfach Goch.**

Mae nifer o weithgareddau ar y gweill:

7 Mai Cyngerdd Côr Merched Taf Elai gydag ysgolion lleol am 7pm yn Ysgol Gymuedol Tonyrefail

11 Mai Taith Gerdded o Dafarn i Dafarn (o'r Griffin Inn yn y Gilfach Goch i'r Bryncae Amrs).

Cwrdd wrth y Griffin Inn am 2pm. Croeso i bawb!

21 Mehefin Gyrfa Chwist a Physgod a Sglodion

9 Mehefin Sêl Cist Car yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail

7 Gorffennaf Taith gerdded yng nghwmni Jeff Owen

# EFAIL ISAF

*Gohebydd Lleol:*
*Loreen Williams*

**Noson Pizza a Chwis**

Trefnwyd noson o Pizza a Chwis yn Nhafarn y Carpenters nos Sadwrn 13eg o Ebrill a chodwyd dros £600 i Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.

**Sgwrs gan Roy Noble**

Treuliwyd prynhawn difyr yng nghwmni Roy Noble yng Nghanolfan y Tabernacl ddydd Gwener Ebrill 19eg mewn Cyfarfod o Gylch Cadwgan a drefnwyd gan Gymdeithas Gymraeg Llantrisant. Roedd yr hanesion doniol yn byrlymu dros ei dafod, o hanes ei fagwraeth ym Mrynaman i fywyd ysgol uwchradd a choleg. Ar ôl cyfnod byr fel athro daeth rhyw ysfa drosto i fod yn beilot, a'r siom o fethu, gan ei fod yn dioddef o glefyd y gwair. Troi nôl wedyn i fyd addysg a bu'n Brifathro cyn cael ei droed drwy ddrws y BBC yng Nghaerdydd a chael gyrfa arbennig iawn yno. Cyflwynwyd Roy i'r gynulleidfa gan Alun Wyn Bevan a diolchwyd iddo gan Gwilym Treharne, dau o'i gyd-ddisgyblion yn Ysgol Ramadeg Dyffryn Aman. Braf cael nodi fod £300 wedi ei drosglwyddo i Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Rhondda Cynon Taf.




**Gymanfa Ganu Salem**

Profiad hyfryd oedd cael ymuno ag aelodau Capel Salem, Tonteg nos Sadwrn Ebrill 20fed mewn Cymanfa Ganu o dan arweiniad Marc Jon Williams a'r organydd Ann Williams. Cynulleidfa fach oedd yno ond roedd digon o hwyl yn y canu. Profiad unigryw oedd cael y gynulleidfa i gerdded allan o'r capel yn ystod yr emyn olaf, a chanu'r trydydd pennill wrth fedd John Hughes, cyfansoddwr y dôn Cwm Rhondda. Roedd yn braf cael ymuno am baned a sgwrs a gwledd o fwyd yn y festri ar ôl y canu.

**Noson i lansio Gin "Myfyr Morgannwg"**

Bydd y gin arbennig "Myfyr Morgannwg" sydd yn cael ei gynhyrchu gan Gastell Hensol yn cael ei lawnsio mewn noson gymdeithasol yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf nos Wener, Mai 17eg am 7 o'r gloch yr hwyr. Bydd Will Morus Jones yno i roi ychydig o hanes Myfyr Morgannwg.

I'r rhai na fyddant yn gallu bod yn bresennol yn Efail Isaf ar Fai 17eg bydd Wil Morus Jones yn cyflwyno hanes Myfyr Morgannwg eto yng Nghanolfan Garth Olwg nos Fercher, Mai 22ain am 7 o'r gloch.

**Diolch**

Ar nodyn personol iawn, fe hoffai Carey a minnau ddiolch o galon i'n ffrindiau a'r teulu am yr holl ddymuniadau da, cerdiau, blodau ac anrhegion a derbynion ni adeg ein Priodas Diemwnt yn ddiweddar.

**Dathlu Priodas Diemwnt**

Llongyfarchiadau arbennig i Carey a Loreen ar ddathlu eu priodas diemwnt. Diolch iddynt hefyd am eu cyfraniad enfawr i fywyd y capel, y pentref a'r fro.

**Y TABERNACL**

**Brysiwch Wella**

Da deall fod Sara Davies a Ros Evans yn gwella erbyn hyn. Gobeithio eich gweld yn ôl yn y capel cyn hir.

**Caniadaeth y Cysegr**

Roedd yn hyfryd clywed llais un o aelodau'r Tabernacl, Emlyn Davies yn cyflwyno "Caniadaeth y Cysegr" fore a phrynhawn Sul, Ebrill 21ain. Rhaglen gwerth gwrando arni. Diolch Emlyn.

**Merched y Tabernacl**

Mi wnaeth aelodau Merched y Tabernacl deithio i'r Amgueddfa yn Sain Ffagan fore Gwener, Ebrill 12fed. Fe ymwelon ni â'r arddangosfa "Hawlio Heddwch" yn gyntaf, sef hanes y menywod dewr a gasglodd llofnodion menywod o bob rhan o Gymru yn ymbil am heddwch yn y byd, ac yna cludo'r gist yn cynnwys y llofnodion yr holl ffordd i'r Amerig. Roedd yr arddangosfa yn werth ei weld a chawsom gwmni "cymeriad" o dywysydd o Orllewin Cymru. Ar ôl cael paned aeth nifer o'r aelodau am dro bach o amgylch yr Amgueddfa a'r tywydd yn fendigedig o braf.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad a Pharc Ynysangharad ym Mhontypridd ddydd Mercher Mai 15fed. Byddwn yn cyfarfod am hanner dydd ar bwys y Bandstand cyn mynd ymlaen i Ganolfan CALON Taf lle bydd cyflwyniad gan Aled Humphreys am chwarter wedi 12 o'r gloch.

**Cydymdeimlo**

Cynhaliwyd angladd Jenkin Griffiths yn Y Tabernacl brynhawn dydd Sadwrn, Ebrill 20fed. Roedd y Gwasanaeth yng ngofal y Parchedig Marcus Wyn Robinson gyda chymorth Y Parchedig Stephen Morgan a roddodd hanes cynnar Jenkin ym Mhenuwch. Croesawyd y gynulleidfa i'r oedfa gan aelodau o Fand Pres Tredegar. Yr organyddes oedd Siân Elin.

Er bod Jenkin yn hanu'n wreiddiol o Geredigion fe dreuliodd bron i hanner can mlynedd yn byw yn ardal Caernarfon. Bu ar staff rheoli uwch Llyfrgell y Sir cyn cael ei ddyrchafu'n Brif Lyfrgellydd Gwynedd. Rhyw chwe blynedd yn ôl fe symudodd Jenkin a Glenys i Lanharan, ond bregus fu iechyd Jenkin yn ystod y cyfnod yma. Cydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Glenys a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Addewidion a Gweithredoedd o Garedigrwydd**

Prynhawn Sul Ebrill 21ain cafwyd cyfarfod gwahanol iawn yn Y Tabernacl. Roddwyd cyfle i aelodau'r gynulleidfa addo gwneud gweithredoedd o garedigrwydd i greu gwell amodau byw i bawb. Dyma rai enghreifftiau o'r addunedau a gyflwynwyd i'r gynulleidfa; helpu pobl llai ffodus; cyfarch pobl â gwên; peidio gwastraffu bwyd, dŵr, nwy a thrydan; cerdded yn lle teithio yn y car; cynnig taleb bwyd i'r digartref; rhoi cwtsh i ffrind bob dydd.

Roedd pob un oedd yn addo yn cael carden fach hyfryd i'w hatgoffa o'i hadduned. Awgrymwyd iddynt dynnu llun i gofnodi'r weithred a throsglwyddo i wefan Eleri Mai. Diolch i Heulyn ac Eleri Mai am drefnu'r cyfarfod. Roedd ôl paratoi manwl iawn yma.

**Bore Agored**

Cynhelir "Bore Agored" yn y Tabernacl fore Sadwrn Mai 11eg rhwng 10.30 a 12.30. Bydd cyfle i gael paned a chacen. Gellir dysgu sut mae'r capel yn helpu eraill, a dysgu am yr ardd gymunedol. Efallai y ceir cyfle i blannu hadau. Dewch yn llu!

**Apêl**

Gyda'r tywydd yn dechrau newid bydd angen help yng Ngardd Gymunedol y Tabernacl. Bydd croeso cynnes a phaned ar fore Sadwrn rhwng 10 o'r gloch a hanner dydd. Bydd croeso i chi balu ychydig yn yr ardd!

**Wythnos Cymorth Cristnogol (Mai 12fed - 18fed)**

Bydd Cymorth Cristnogol elen yn codi arian i helpu teuluoedd yn Burundi, un o wledydd tlota'r byd. Bydd yr arian a gesglir yn gefn i bobl dyfu bwyd, prynu meddyginiaeth a gwella eu hamodau byw. Bydd y casgliad ar agor tan Mai 18fed.

**Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mai.**

Mai 5ed. Iwan Rowlands
Mai 12fed. Wythnos Cymorth Cristnogol
Mai 19eg. Prynhawn Teuluol am 4 o'r gloch y prynhawn
Mai 26ain. Elwyn Hughes

# PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

**Fy Nhrysor I**

Ar gyfer cyfarfod mis Ebrill, cytunodd pedwar o aelodau Clwb y Dwrlyn i gyflwyno gwrthyrch neu adrodd hanes oedd yn bwysig iawn iddynt.

Eleri Jones oedd y cynta’ i sôn am ei thrysor hi wrth ein harwain yn ôl i’w hamser fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Cathays lle bu Elfed Thomas yn athro a Bobi Jones a Teddy Millward yn ddisgyblion. Ymysg aelodau’r staff roedd athrawes dawel a swil ac oherwydd hynny ni ddaeth Eleri i’w hadnabod yn dda. Serch hynny pan anwyd Sara derbyniodd Eleri anrheg arbennig ganddi sef cwilt hyfryd o’i gwaith ei hun a’r gwningen fach yn y canol efallai yn adlewyrchu cymeriad yr athrawes garedig. Does dim rhyfedd bod y cwilt wedi ac yn dal i gael ei drysori.



Olrhain hanes ei gyndeidiau o Langybi a Phorthmadog wnaeth Penri gan gyfeirio yn arbennig at ei Hen Daid, John Williams (John Sardis) 1833 - 1915 a’i Daid, Robert Williams, siop Cloth Hall 1863 - 1918. Bu’n chwilota drwy ddogfennau a phapurau’r cyfnod a chyflwynodd nifer o hanesion difyr. Adeiladodd ei hen Daid longau ac ymddiddorai yn y pethe. Enillodd wobr o £2.20 am ysgrifennu traethawd ar “Paham yr wyf yn Annibynnwr.” Go brin y bydd cystadleuaeth o’r fath yn y Genedlaethol eleni!

Wrth sôn am Robert Williams yn arwain côr plant a diddanu pobl gyda’i Magic Lantern mae’n amlwg bod canu a thynnu lluniau yn y gwaed a’r llyfryn a baratowyd gan Penri ar sail ei ymchwil - ‘Teulu Glaslyn - Porthmadog, Bargoed, Caerdydd’ - wir yn drysor.

Daeth Eifion â llun y mae e’ a’r teulu yn ei drysori – llun o Joy a’i thad a arluniwyd gan Meirion Jones, mab Aneurin Jones, Aberteifi. Dyna’r anrheg annisgwyl a roddwyd i Joy ar benblwydd arbennig. Er mwyn cadw’r gyfrinach bu’n rhaid i Eifion ddanfon copi o’r ffotograff o’r ddau, a gâi le amlwg ar wal y gegin, at Meirion. Cawsom ddarlun hyfryd o’r berthynas gynnes oedd rhwng Joy a Dat Llandudoch – dyn bodlon, dyn da - a Meirion Jones wedi llwyddo i gyfleu hynny.

Cyfrol yn adrodd hanes Adran Ffiseg Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth oedd dewis Guto. Yr awdur oedd Mervyn Jones a gydag ef bu Guto yn astudio llif nwyon trwy dyllau mân iawn. Cafodd y dasg o ddarganfod dull i lif ddigwydd na welwyd o’r blaen a llwyddodd i wneud hynny. Gwrthododd Mervyn Jones egluro cefndir y dasg gan ddweud taw Deddf Cyfrinachau Swyddogol oedd y rheswm. Flynyddoedd wedyn cafwyd eglurhad. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu Mervyn Jones yn gweithio i lywodraeth Prydain ar y posibilrwydd o greu bom atomig; yn benodol ceisio darganfod a oedd modd didoli isotop wraniwm U235 o wraniwm craidd. Cynhaliwyd y gwaith yn Rhydymwyn yn Sir Fflint ond daeth i ben pan benderfynodd Prydain ymuno â’r Unol Daleithiau i ddatblygu’r bom.

Guto felly yn llinach gwaith cyfrinachol y llywodraeth adeg y rhyfel! Tipyn o drysor.

**Marathon Llundain**

Llongyfarchiadau gwresog i Awen Penri ar gwblhau Marathon Llundain. Tipyn o gamp ac yn ogystal fe gasglodd dros £3,000 ar gyfer ymchwil cancr y fron er cof am ei mam Carol.




**Garddwyr y Garth**

Mae'r tymor hwn wedi bod yn un hynod o lwyddiannus i'r gymdeithas hon sy'n cwrdd yn fisol yn Neuadd y Pentref. Bill Rodd yw'r cadeirydd ac mae nifer o ddarllenwyr Tafod Elái yn mynychu ac yn llwyddo i ennill cydnabyddiaeth am eu hymdrechion garddwriaethol. Mae'r lleoliad bob amser yn llawn a phobl yn dod o bell ac agos i gymdeithasu ac i wrando ar siaradwyr gwâdd. Trefnir tripiau dydd a gwyliau hirach i ymweld â gerddi diddorol a cheir heriau tymhorol wrth i'r aelodau gystadlu yn erbyn ei gilydd a thyfu blodau/llysiau /perlysiau. Eleni ym mis Mawrth am y tro cyntaf dan arweiniad Derek Price o Dongwynlais arbrofwyd drwy gynnal gweithdai Sadwrn a gobeithir ehangu'r ddarpariaeth yma y flwyddyn nesaf. A barnu oddi wrth y diddordeb lleol fe ddylai Pentyrch a'r pentrefi cyfagos fod yn lleoedd lliwgar a thoreithiog iawn dros fisoedd yr haf!

**Clwb Rygbi Pentyrch**

Er colli yn y diwedd , daeth tymor tim 1af Pentyrch i ben â pherfformiad arbennig yn erbyn Llanharan - tim gore'r gynghrair o bell ffordd - wedi ennill pob un o'u 18 gem, a hefyd wedi cipio Cwpan Cymru ar Y Stadiwm Genedlaethol ychydig wythnose'n ôl. Does neb wedi dod yn agos at eu curo drwy gydol y tymor, ond gyda dim ond 10 muned ar ol ar Barc y Dwrlyn roedd Pentyrch ar y blân o 2 bwynt cyn i'r Pencampwyr sgori 2 gais hwyr i gipio'r fuddugoliaeth. Er y siom, roedd yn ddiweddglo teilwng i dymor boddhaol iawn i Bentyrch. Eu tymor 1af yn yr ail adran ar ôl ennill dyrchafiad y tymor diwetha. Tipyn o gamp oedd gorffen yn gyffyrddus tua chanol y tabl, ac fe fydde'r safle hwnnw wedi bod tipyn uwch oni bai am yr holl anafiade gafwyd am ryw 3 neu 4 gêm ym Mis Ionawr. Daeth cryn lwyddiant i'r ail dîm a'r Ieuenctid hefyd, ac mae'r adran mini a iau yn mynd o nerth i nerth. Sawl oedran gwahanol wedi ennill tlysau, gan chware ar Barc yr Arfe a Heol Sardis, y llwyddiannau'n rhy niferus i'w rhestru. Ond llongyfarchiade i bob un o'r 270 o chwaraewyr sy wedi cynrychioli'r adranne hynny dros y gaea, a diolch i'r 37 o noddwyr a 65 o wirfoddolwyr sy wedi rhoi o'u harian a'u hamser i gynnal y gêm yn y pentre.

**Clwb Criced Pentyrch**

Mae tymor yr haf yn addo bod yn un cyffrous iawn i griced yn y pentre. Ar ôl gwneud yn wych i ennill dyrchafiad ar ddiwedd y ddau dymor diwetha, mae'r tîm bellach yn cystadlu gyda'r elite yn y "Premier " - Prif Gynghrair Cricedwyr De Cymru, - timoedd fu'n gyson ymhlith y goreuon ar hyd y blynyddoedd. Bydd cyfle felly i dîm y pentre chware ar feysydd enwog, llawn hanes a thraddodiad, fel Sain Helen, Gerddi Sophia a'r Gnoll, a bydd cyfle hefyd i'n chwaraewyr a'n cefnogwyr ni i groesawu'r Gynnau Mawr - Caerdydd, Abertawe, Castell Nedd, Sain Ffagan a Phontarddulais i Gae'r Dwrlyn. Dewch i gefnogi - gallwch fwynhau prynhawn hamddenol, criced cyffrous, cwmni difyr, croeso mawr a lluniaeth ysgafn yn yr hen bafiliwn llawn cymeriad. Beth gwell ar brynhawn hyfryd o hâf yng nghysgod Mynydd y Garth. Dyma restr o'r gemau gartre ym Mis Mai:

Sadwrn 4ydd Pontarddulais
" 11eg Caerdydd
" 25ain Sain Ffagan

H.LL.D.

# Colofn Blasus a Iachus

## Eluned Davies-Scott

## Arwr di-glod y gegin

Beth fydden ni'n ei wneud heb winwns? - y llysieuyn mwyaf hollbresennol nad yw'n cael llawer o glod am ei amlbwrpasedd. Fel chwaraewr tîm go iawn, gall y nionyn gael ei rostio, ei grilio, ei biclo, ei garameleiddio, ei wneud yn gytew, ei ffrio, ei sleisio'n denau neu ei dorri'n fân a'i weini'n amrwd mewn saladau, brechdanau, dipiau, neu fel garnais. Mae'n adeg o'r flwyddyn i hadau a setiau winwns fod yn y pridd ar gyfer yr haf felly, ym mis yma, dwi am roi cydnabyddiaeth i'r llysieuyn hwn.



Wrth edrych yn ôl ar ei hanes, mae'r nionyn wedi cael llawer mwy o statws na'r hyn roir iddo heddiw. Dywed rhai ei fod yn hanu o ganolbarth Asia, eraill o Bacistan neu Iran. Fodd bynnag, mae haneswyr yn cytuno ei fod wedi'i drin ers tua 4,000 o flynyddoedd a cheir cyfeiriadau at ei ddefnydd mewn meddyginiaethau a bwydydd mewn llawysgrifau Tsieineaidd ac Indiaidd hynafol ac yn y casgliad ryseitiau enwog Rhufeinig *Apicius.* Roedd yr Eifftiaid hynafol yn gweld siâp sfferig y nionyn fel symbol o dragwyddoldeb ac yn ei ddefnyddio, gyda garlleg, yn y broses mymieiddio a'i amgáu mewn beddrodau. Er ei fod yn un o'r llysiau lleiaf lliwgar, mae'r nionyn wedi'i gydnabod fel un teilwng o astudiaethau bywyd llonydd gan Renoir, Cezanne a vanGough.

Daw'r enw 'onion' o'r gair Lladin 'union' sy'n golygu sengl, oherwydd mae gan nionyn un bwlb yn hytrach na chlwstwr. Oherwydd y ffordd maent yn ymateb i gael eu brathu neu eu torri bu ymdeimlad trwy gydol hanes bod winwns yn bethau llym sydd angen eu dofi. Tan hynny maen nhw'n fwyn ac nid oes gan y mwyafrif arogl cryf. Maent wedi'u cysylltu'n symbolaidd ag arwriaeth ac iachâd: yn yr *Odessey* mae Odysseus yn galw ar eu pŵer iddo gael mynediad i oror Circe. Roedd winwns hefyd yn cael eu bwyta gan Olympiaid yn yr hen Roeg a milwyr Alecsander Fawr i roi cryfder a grym iddynt. Roedd Hippocrates yn eu rhagnodi i atal niwmonia, fel diwretig ac i wella clwyfau. Mae eu rhinweddau meddyginiaethol hefyd wedi cael eu defnyddio ers amser maith mewn meddyginiaethau cartref ar gyfer poen clust, i ymladd annwyd ac ar gyfer pigiadau gwenyn meirch. (Tybed oes unrhyw un ohonoch wedi profi cael nionyn mewn hosan o amgylch y gwddf dros nos pan yn ddioddef o anwyd?) Mae astudiaethau diweddar yn cefnogi'r ffaith bod gan winwns briodweddau gwrthocsidiol a gwrthfacterol.

Mae'r math o nionyn a elwir Rose of Roscoff, sy'n cael ei ffafrio gan Raymond Blanc, wedi'i dyfu yn Llydaw ers y 17eg ganrif. Dyma'r amrywiaeth a boblogeiddiwyd gan yr enwog Sioni Winwns ('Onion Johnnies') a ddechreuodd ddod â llinynnau ohonynt i Brydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dywedir bod y llysenw yn deillio o'r ffaith bod gan lawer o'r gwerthwyr yr enw cyntaf Jann, y fersiwn Ffrangeg o Jean. Nid Jann ond Henri Olivier oedd y gwerthwr winwns dewr cyntaf i wneud y daith mewn cwch ym 1828. Ysbrydolodd eraill i ddilyn olion ei draed ac erbyn dechrau'r 20fed ganrif roedd tua 1,500 o'r gwerthwyr yn teithio ar draws y sianel. Daeth Sioni Winwns yn adnabyddus ledled y wlad yn gwthio beic wedi'i orchuddio â llinynnau o winwns, ac yn gwisgo beret. Rwy'n cofio nhw yn dod i Sir Drefaldwyn a'u gweld yn yr Ais, Caerdydd. Y gwerthwr Ffrengig olaf yng Nghaerdydd oedd Patrick Mevel. Symudodd i'r brifddinas yn 1979 pan oedd yn 21 oed ac ymddeolodd yn 2022; gallwch ddarllen ei stori ar wefan y BBC.

I ddychwelyd i'w mecanwaith amddiffyn naturiol. Wrth ei chnoi neu dorri mae'r



difrod wneir i gelloedd nionyn yn arwain at ryddhau nwy llidus a fwriedir i warchod winwns rhag anifeiliaid newynog. Pan fydd y nwy hwn yn cyrraedd y llygaid mae'n adweithio â dŵr y llygaid sy'n ei droi'n gemegau gan gynnwys asid sylffwrig, mae'r llygaid yn adweithio trwy gynhyrchu dagrau i olchi'r asid poenus i ffwrdd. Gall defnyddio cyllell finiog, eu oeri am o leiaf 30 munud cyn eu defnyddio, blansio winwns cyfan yn fyr cyn eu defnyddio a'u torri o dan dap dŵr oer, a hyd yn oed gwisgo lensys cyffwrdd, yn helpu i leihau'r effaith hyn.

Mae croen nionyn yn cynnwys llawer o danninau naturiol, sy'n ei wneud yn ddelfrydol ar gyfer lliwio ffibrau cotwm a lliain. Mae'r rhan fwyaf o ddefnydd winwns wrth goginio yn un o 'rôl gynhaliol' i ychwanegu blas, dyfnder neu garnais. Serch hynny, cofiaf fy mam yn gweini winwns wedi'u berwi mewn saws gwyn fel pryd cynnil a blasus; gellir eu stwffio hefyd, eu gwneud yn Gawl Winwns Ffrengig a thartenni tra bod bhajis nionyn yn cael eu gweini fel rhan o brydau Asiaidd. Braf oedd gweld winwns yn cael lle blaenllaw gan un o gystadleuwyr Master Chef eleni yn ei 'offrwm' cyntaf i Greg a John.









Y nionyn melyn/brown yw'r un mwyaf amlbwrpas. Mae gan winwns gwyn groen papurog a chnawd gwyn gyda blas cryf, maen nhw'n dda ar gyfer eu stwffio neu eu pobi. Mae gan y winwns Sbaenaidd groen sydd â lliw tebyg i rhai melyn/brown ond maent fel arfer yn fwy, yn ogystal â blasu'n felysach ac yn fwynach ac yn dda ar gyfer omledau, salsas a 'stir-fries'. Mae winwns coch yn amrywio o ran maint, mae'r blas yn ysgafn ac yn eithaf melys felly yn dda ar gyfer saladau, marinadau a salsas.

Yn aml mae rysetiau yn gofyn am deisio winwns yn gyfartal, ac mae ffordd dda o wneud hyn yn llwyddiannus - cyfeiriwch at y canllaw a'r fideo ar wefan Good Food.



Mae winwns yn rhad ac mor amlbwrpas - gellir eu coginio mewn amrywiaeth o ffyrdd i roi gwahanol flasau ac ansawdd; maent yn meddalu, yn dod yn fwynach ac yn felysach eu blas, byddant yn brownio (ac yn llosgi!) ac yn carameleiddio. Mae carameleiddio neu ffrio ar wres isel neu gymedrol yn achosi adwaith rhwng y siwgrau a'r proteinau yn y winwns. Mae'r winwns yn troi'n frown, mae'r siwgrau'n dod yn rhydd, ac mae'r cyfansoddion sylffwrig yn adweithio drosodd a throsodd nes bod y blas llym wedi diflannu a'r blas siwgr melys yn aros.Mae halen yn helpu i ddod â lleithder allan o'r winwns ac yn helpu i'w coginio a brownio yn gyflymach.



Dyma rai o fy hoff ryseitiau: iau a winwns traddodiadol; selsig gyda grefi winwnsyn a finegr balsamig; rysait Nigella Lawson am dip wedi ei wneud o wylys a winwns wedi'u llosgi (gyda chwmin, mintys, paprika, tahini, olew olewydd a sudd lemwn); tarten caws glas, afal a winwns; salsa nionyn coch a mango Tom Kerridge (sydd â pupurau jalapeno ac yn dda gyda chigoedd oer a physgod wedi'u coginio gyda sbeis Cajun); siytni winwns wedi'u carameleiddio (i weini gyda chawsiau, rotis a tortillas) a rysait Dwrcaidd Sabrina Ghayour o winwns gyda phomgranad (yn ei llyfr coginio Persaidd). Ond i mi, beth allai fod yn well na chi poeth da gyda dogn da o winwns!

# Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James

**Celf yr Urdd**
Diolch i bawb a fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth celf yr Urdd. Mae'r gwaith yn wych ac yn cynnwys ffotograffau, pypedau a modelau. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran.

**Pêl-droed a phêl-rwyd yr Urdd**
Llongyfarchiadau i dimoedd pêl-droed a phêl-rwyd yr ysgol am wneud mor dda yng nghystadlaethau'r Urdd. Aeth y tîm pêl-droed i chwarae yng nghaeau Prifysgol De Cymru yn Nhrefforest a'r tîm pêl-rwyd i Ysgol y Pant ym Mhontyclun.



**Ymweliadau ac ymwelwyr lu**
Mae blwyddyn 1 a 2 wedi bod ar daith i Barry Sidings i weld pa fwystfilod bach sy'n byw yno a chael picnic wrth gwrs. Diwrnod hyfryd.

Yn ogystal, daeth The Nearly Wild Show i'r ysgol i ddangos pob math o anifeiliaid i'r plant. Daeth nadroedd, moch cwta, cwningod a llawer mwy i ymweld â Dosbarth Tom Jones, Elin Fflur a Cerys Matthews.




Mae dosbarth Branwen a Bendigeidfran wedi bod i'r llyfrgell unwaith eto i ddewis eu hoff lyfrau er mwyn eu darllen yn y dosbarth.

Diolch i gyn bennaeth yr ysgol, Wil Morus Jones am ddod i siarad gyda Blwyddyn 5 am hanes Pontypridd. Dysgom gymaint o ffeithiau newydd am ein tref.

Daeth yr NSPCC i'r ysgol i siarad am eu gwaith gyda blynyddoedd 2, 5 a 6. Cafodd y plant hwyl yn dysgu sut i gadw ein hunain yn ddiogel. Diolch yn fawr.

Mae Dosbarth Jac y Jwc a Sali Mali yn dysgu am arwyr anhygoel ein cymuned. Daeth dwy nyrs i siarad gyda'r plant am eu gwaith arbennig. Diolch am ddod i'n gweld.

# Clwb y Bont

Wrth edrych i'r dyfodol, weithiau mae'n braf medru edrych nôl ar ambell uchafbwynt, a chafwyd sawl digwyddiad llwyddiannus gan gynnwys parti priodas yng Nghlwb y Bont ym mis Ebrill.



Wrth gwrs roeddem yn hynod falch gweld pob tocyn wedi eu gwerthu ar gyfer dau o'n gigs Cymraeg. Y naill oedd noson hyfryd yng nghwmni'r amryddawn Elin Fflur gyda Siôn Llwyd yn cyfeilio iddi. Nid yn unig bu cyfle i glywed rhai o'i chaneuon poblogaidd ond bu cyfle i chwerthin wrth i Elin adrodd sawl tro trwstan ddigwyddodd yn ystod ei gyrfa lwyddiannus.

Yn rhan o'r noson hefyd oedd Alis Glyn, artist ifanc o ardal Caernarfon sy'n cyfansoddi a chyflwyno ei chaneuon mewn modd aeddfed a chynnes. Dim ond dwy ar bymtheg oed yw Alis, sef yr un oedran ag yr oedd Elin pan enillodd hi gystadleuaeth Cân i Gymru.




Y gig arall oedd y 3ydd noson yn ein cyfres o nosweithiau wedi ei hanelu at gynulleidfa 14+. Cafwyd perfformiadau egnïol a safonol gan fandiau ifanc Echdoriad ac Anhunedd, a Wigwam yn cloi'r noson o flaen cynulleidfa frwdfrydig oedd yn gwerthfawrogi'r cyfle i glywed miwsig Cymraeg gwreiddiol.

Mae sicrhau talentau'r dyfodol yn greiddiol i'n gweledigaeth yng Nghlwb y Bont a pha ffordd well o wneud hynny na chynnig yr adeilad fel cartref ar foreau Sadwrn am rhai wythnosau i Brosiect RIFF, sef rhaglen mentora cerddoriaeth Gymraeg RhCT mewn partneriaeth rhwng Menter Iaith RhCT, Cerdd Gymunedol Cymru a Gwasanaeth Cerdd y sir. Rydym yn hyderus y gwelwn sawl grŵp roc newydd yn cael eu sefydlu, a'r aelodau yn gynnyrch ysgolion uwchradd y sir.

Gobeithiwn eu gweld ar lwyfannau i'r dyfodol, gan gynnwys Clwb y Bont wrth gwrs.

Wrth edrych ymlaen at fis Mai a thu hwnt rydym yn falch o gynnig cwis penodol i ddysgwyr ar 16eg o Fai. Gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at sefydlu mwy o ddarpariaeth i'r dyfodol; ac mae'r noson yn ychwanegol at y cwis misol dwyieithog a gynhelir Clwb, sydd erbyn hyn yn mynd o nerth i nerth.

Ymhlith rhai o'r uchafbwyntiau eraill dros yr wythnosau bydd "Ffenast Siop", perfformiad gan Theatr Bara Caws ar Fai'r 23ain, gig gan y grŵp roacbili a hwyliog Pwdin Reis ar Fai'r 24ain gyda'r Gerddorfa Ukulele yn cefnogi; ac edrychwn at weld Cwmni Mewn Cymeriad yn dychwelyd ar Fai'r 30ain wrth iddyn nhw gyflwyno perfformiadau dramatig yn ystod gwyliau ysgol i'n cynulleidfa iau.

Gyda'r bar nawr ar agor o 1 o'r gloch ar brynhawniau Sadwrn, mae mwy o gyfle nac ers tro i gymdeithasu yng Nghlwb y Bont.

Aled Wyn Phillips

# Gwahoddiad i'r Cinio Mawr, Mehefin 2024

Bwyd? Gazebo? Bynting? Cerddoiaeth? Peiriant candy floss?! Beth fyddwch chi'n dod i'r bwrdd eleni?

Ydy, mae penwythnos **Y Cinio Mawr** blynyddol rownd y gornel, ac eleni eto mae tîm Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru, yn eich gwahodd chi i ddod at eich gilydd yn eich cymuned ac i gymryd rhan yn yr hwyl!

Mae'r Cinio Mawr yn ddigwyddiad blynyddol sy'n hybu pobl o amgylch Cymru a thu hwnt i ddod at ei gilydd yn y gymuned i rannu bwyd, sgwrs a chreu cysylltiadau newydd. Llynedd daeth **482,000** o bobl Cymru at ei gilydd i gymryd rhan a chodi tua **£200,000** at elusennau lleol hefyd.

Eleni, rydym yn eich annog chi i drefnu'r Cinio Mawr mwyaf gwyrdd erioed, er mwyn hybu'r amgylchedd ac arbed arian hefyd. Beth am drefnu picnic yn y parc lleol? Beth am drefnu cinio yn y neuadd bentref a gofyn i fwytai lleol gyfrannu bwydydd sy'n wastraff? Neu beth am drefnu parti stryd a bod pob tŷ yn cyfrannu rhywbeth? Gall fod yn ddigwyddiad mawr neu mor syml â rhannu cacen gyda'ch cymdogion, y peth pwysig yw hybu'r gymuned a'i phobl, does dim angen gwario. Mae penwythnos swyddogol Y Cinio Mawr eleni ar y **1-2 o Fehefin**, ond gallwch drefnu eich Cinio Mawr unrhywbryd ym Mehefin.

Ewch i //bit.ly/yciniomawr24 i archebu pecyn digidol a dwyieithog am ddim, ac i gofrestru eich Cinio Mawr ar y map hefyd!

Eisiau sgwrs? Cysylltwch â Lowri Jenkins, Rheolwr Cymunedau'r Eden Project yng Nghymru ar LJenkins@edenproject.com

Cofiwch ein dilyn ni @EdenCommunitiesCymru ar Instagram, Facebook ac X.



# Bethlehem, Gwaelod-y-garth

**Trefn yr Oedfaon a'r Ysgol Sul [YS] (am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol):**
**Mis Mai 2024:**
5ed Mai – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
12fed Mai – Oedfa Cymorth Cristnogol
19eg Mai – Oedfa dan ofal y Parchedig Jeff Williams
26ain Mai – Oedfa dan ofal Eirian Dafydd
**Mis Mehefin 2024**:
2il Mehefin – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
9fed Mehefin – Oedfa Ardal Radur
16eg Mehefin – Oedfa dan ofal Marc Jon Williams
23ain Mehefin – Oedfa dan ofal Huw Lloyd
30ain Mehefin – Oedfa dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
[Hefyd 30ain Mehefin (p.m.) – Cyflwyniad o'r "Gwynfydau" yng Nghapel Minny Street, Caerdydd]

---oooOOOooo---

## "Y Wythien Fawr" - Hanes Phillipiaid Gwaelod-y-garth

Ym Medi 1942 cyhoeddodd Evan Phillips, "Yscallog", Llandaf, Caerdydd, [mab "Morgan o'r Lan"] gyfrol breifat dan y teitl '**Llyfr Cronicl Phillipiaid Gwaelod -y-garth'** ("*cyfyngir y gyfrol i gylchrediad preifat ymhlith y teulu a chyfeillion agos*.")

Yn y Rhagair i'r gyfrol, mynegir fel a ganlyn-

"*Gwnaed ymgais yn y casgliad yma i olrhain hanes teulu Phillipiaid Gwaelodygarth. Nid ydynt hwy ond cangen o'r pren a ledodd ei gysgodion yma a thraw yn Neheudir Cymru, ac i'r amcan presennol lleolwyd hwynt fel Phillipiaid Gwaelodygarth ymhlwyf Pentyrch…*

O'r ychydig ffeithiau cynnar a gafwyd, cesglir mai o Swydd Frycheniog yr hanodd teulu'r Phillipiaid, ac mai amaethwyr oeddynt yno. Mae cofnod i un ohonynt (Howell Phillip [bu farw 1811]) symud i Aberdâr, ac yna yn ddiweddarach bu'r teulu yn amaethu ar y ffordd i'r Mardy, mewn fferm o'r enw "*Rhondda Fychan*", hyd tua 1830.

*"Wedi hynny symydasant i fferm "Y Garth" ymhlwyf Llanilltyd Fardre, ac yna i fferm "Y Lan", a oedd yn rhannol yn yr un plwyf."*

*"Ceisiwyd rhoi hanes y teulu oddiar hynny hyd y presennol yng nghynnwys y llyfr hwn."*

Un o feibion Morgan Phillips, mab Howell Phillip, oedd **John Phillips [1]** (1786 - 1871), ac ef oedd yr un a adnabuwyd fel "***Shôn o'r Lan***", tad y tylwyth y cyfeirir atynt yn yr ardal hyd heddiw fel y "wythïen fawr".

*"Yr oedd "Shôn o'r Lan" yn ŵr amryddawn, ac o feddwl annibynnol. Cymerai ddiddordeb mawr mewn Iforiaeth, a gelwid ef "Tad Iforiaeth" plwyf Llanilltyd a Phentyrch. Sefydlodd dair cyfrinfa, gan gynnwys "Gwenynen" yn y Colliers Arms ar y Garth, a "Twyn yr Aderyn Du" yn y Tynant, Treforgan."*

Priododd John a Gwenllian Llewellyn (1787 - 1820) ar y 27ain o Fehefin 1807, a chawsant 6 o blant [* bydd aelodau Bethlehem, Gwaelod-y-garth a diddordeb o ddilyn achau'r enwau mewn print bras - gweler y goeden deulu {rannol} isod] - **John (ganed 1806) [2]**, Janet, Howell, Howell. Gwenllian a **Morgan (1820 - 1891) [3]**.

Priododd John yr eilwaith gyda Deborah Thomas (1796 - 1882) ar y 15fed o Hydref 1822, a chawsant 8 o blant – **Abraham (1822 – 1875) [4]**, **Thomas (1824 – 1908) [5]**, Richard, Margaret, William, Deborah, Evan a **Phillip (1833 – 1877) [6]**.

Roedd John a Deborah yn aelodau yng Nghapel Penuel, Pentyrch, hyd nes y ffurfiwyd eglwys Salem, Gwaelod-y-garth yn 1863.

O'r briodas gyntaf:-

Priododd **John Phillips [2]** gyda Mary Duggins (ganed 1815) a chawsant 4 o blant, yn eu mysg **Elizabeth Phillips [7]**. Priododd Elizabeth gyntaf a Shadrach Davies, un o'r rhai a fu farw o'u hanafiadau (ar y 25ain o Ionawr 1876) yn dilyn y danchwa yng Nglofa'r Lan ar y 6ed o Ragfyr 1875.

Priododd Elizabeth yr eilwaith a Jonah Miles (1844 – 1918).

Priododd **Morgan Phillips [3]** a Rachel Llewellyn (1820 – 1907) a chawsant 8 o blant, yn eu mysg **Janet Phillips (1862 – 1937) [8]**, **Evan Phillips (ganed 1864) [9] a Jemima Phillips (ganed 1870) [10].**

Roedd Morgan Phillips [3] yn gyfrifol am adeiladu tri thŷ yng Ngwaelod-y-garth yn 1857 – "Myrtle Villa" oedd un ohonynt (lle bu Shôn o'r Lan a'i wraig Deborah yn byw).

"*Wedi cyfnod yn Salem, Gwaelod-y-garth…ymaelododd Morgan a Rebecca gyda'r Annibynwyr ym Methlehem, ac yno hefyd yr aeth y plant ac ymaelodi o un i un hyd nes i'r oll ohonynt fod yn aelodau o'r eglwys."*

*"Bu Morgan yn flaenor am lawer o flynyddoedd a gellir dweud am y rhieni a'r plant iddynt fod yn aelodau gwasanaethgar*."

Priododd **Janet Phillips [8]** a Thomas Millward (1862 – 1923) a ganed iddynt un ferch, sef **Nansi Rebecca Millward [11].** [Roedd teyrnged i Nansi yn rhifyn Chwefror 1988 o Tafod Elái.]

Priododd **Evan Phillips [9]** ddwywaith - yr ail briodas gyda Mary Catherine Griffiths - a ganed iddynt 6 o blant, yn eu plith **Enid Siriol Phillips (ganed 1910) [12].** Priododd Siriol a Reginald Hicks, a byddai teulu Bethlehem yn gyfarwydd a Siriol Hicks o'r herwydd.

Evan Phillips *"…a fu'n gyfrifol am gasglu hanes y teulu. Bu'n lloffa mewn hen Feiblau, hen groniclau a chofrestri eglwysi am fanylion*."

Yn 1896 ef oedd yn gyfrifol am adeiladu 4 Garth Villas (cartref Nansi Millward yn ddiweddarach).

"*Bu ef a'r teulu yn aelodau gwerthfawr a hynod ddefnyddiol o Eglwys Annibynol Bethlehem, Gwaelod-y-garth, a chalondid mawr i ni ydoedd eu cael yn ôl i'n plith yn 1935, pan ymddeolodd Mr Phillips a ddychwelyd i'w henfro (o Lundain)."*

Priododd **Jemima Phillips [10]** a John Howell **(1870 – 1936),** a ganwyd 9 o blant iddynt. Yr ieuengaf ohonynt oedd **Benjamin (Ben) Howell (ganed 1911) [13].** Bu Ben, a'i wraig Megan, yn aelodau ffyddlon, ac yn ddiaconiaid ym Methlehem, wedi iddynt ddychwelyd i fyw i'r ardal (o Gaerfyrddin) yn dilyn eu hymddeoliad.

O'r ail briodas:-

Priododd **Abraham Phillips [4]** gyntaf ag Elizabeth Morgan (1825 – 1866), ac yna yr eilwaith a Jemima. Dyma'r Abraham a fu farw yn y danchwa yng Nglofa'r Lan yn 1875.

Priododd **Thomas Phillips [5]** ag Elizabeth Thomas (1827 – 1902). Ganed naw o blant iddynt. Roeddent yn byw yn "Myrtle Villa", Gwaelod-y-garth, ar ddiwedd eu hoes.

Bu Thomas yn arolygwr mewn gwahanol lofeydd, ac yna yn '*Manager*' Glofa'r Lan, Glofa Llety Brongu (Maesteg) a Glofa'r Maritime, Pontypridd.

Un o'i blant oedd **Ann Phillips [14] (1860 – 1931) [10]**

Collodd Ann ei gwr cyntaf, Howell Howell, yn fuan ar ôl y briodas, ond bu iddi ail-briodi a Samuel Thomas {*Eos y Garth*} (1862 - 1924), yn 1889. Ganwyd iddynt un mab, sef **Thomas William Thomas {*Ab Eos*}** (1901 - 1998) **[15].** A dyma'r un y byddem yn cyfeirio ato fel y diacon annwyl - "TW", Greenhurst, Pentyrch. [Daeth *Eos y Garth* yn drydydd yn yr unawd tenor yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Pontypridd yn 1893]

Priododd **Phillip Phillips [6],** ddwywaith - yr eilwaith gydag Ann Millward (1830 – 1893).

Roedd Phillip yn ddiacon ym Methlehem, ac ar ymyl y ddalen yng Nghofrestr y Capel, yn nodi ei farwolaeth, ceir y geiriau (yn Saesneg) "a deacon… and an excellent one he was"!

Roedd un plentyn o'r briodas gyntaf; a thri o'r ail briodas, **Evan James Phillips (ganed1867) [16]**, **John Phillips (ganed 1873) [17]** a Horatio Abraham Phillips.

[Roedd Ann hefyd yn priodi am yr eilwaith – ei gwr cyntaf oedd William Millward, ac 'roedd dau o blant ganddi o'r briodas honno sef Thomas Millward (1854 – 1923) a Jane Millward (1857 – 1915)]

Roedd Evan James Phillips [16] yn actor a beirniad drama, yn organydd ac yn ddiacon ym Methlehem.

Priododd **Evan James Phillips [16]** a Joan Lloyd yn 1890 a ganed iddynt 7 o blant, yn eu plith:-

Parhad tudalen 13 >

### "Y Wythien Fawr" - Hanes Phillipiaid Gwaelod-y-garth (Parhad)

**Horatio Lloyd Phillips (1895 – 1918) [18],** *Corporal* gyda'r Royal Field Artillery**,** a gollwyd yn Salonica, yn y Rhyfel Mawr, ar y 6ed o Ebrill 1918, ac a gladdwyd ym Mynwent Brydeinig Corfu.

**Alun Phillips (ganed 1897) [19],** a briododd a Rebecca Howells.

Ganed iddynt un ferch yn 1936, sef **Ann Gwendoline [20]**. Priododd hithau gyda Gordon Beech, ac felly fel Ann Beech yr adwaenem ninnau hithau ym Methlehem. A'i merch hwythau oedd **Cathrine Beech [21].**

**Trevor Phillips (1901 - 1993) [22],** a briododd a Mable Griffiths. Ganed un ferch, Mair, iddynt yn 1933. (Roedd Trevor hefyd yn un o ddiaconiaid Bethlehem.)

**Eunice May Phillips (ganed 1904) [23],** a briododd a **John Charles Davies (marw 1978) [24].** (Noder bod Eunice a John Charles yn gyfyrdryd.)

Roedd John Charles Davies yn organydd, yn godwr canu, yn arweinydd y gân, yn ddiacon, athro Ysgol Sul ac yn Ysgrifennydd ym Methlehem. Cafwyd teyrnged haeddiannol iddo gan ei gyn-weinidog, y Parchedig Gwilym Morris, yn "Y Tyst" rhifyn 20fed o Ebrill 1978.

Priododd **John Phillips [17]** ag **Ann (Nan) Watkins [26]** (1876 – 1927), merch "Tynewydd" Gwaelod-y-garth. Dyma'r John Phillips a gydnabyddir ym "Mhont Shôn Phillip", y bont droed sy'n cysylltu Ffynnon Taf a'r Gwaelod, ac a agorwyd ganddo yn 1926.

Roedd John Phillips [17] *"... yn Ysgrifennydd Eglwys Bethlehem, Gwaelod-y-garth, oddiar 1906, ac yn ddiacon oddiar 1910…Aelod blaenllaw o Gwmni Dramayddol Gwaelod-y-garth, ac ym Mawrth 1920, yn Eisteddfod Treorchi, ennillod y Fedal Aur am y perfformiad unigol gorau…"*

Ganed iddynt dri o blant, sef: -

**Phillip Evan Phillips (ganed 1902) [23].** Priododd a Violet Husband.

**Arthur Watkin Phillips (ganed 1907) [24].** Priododd a Hilda Wilson.

**Nest Phillips (1910 - 1988) [25].** Priododd a Tudor Jeremy, ac fel **Nest Jeremy** y byddem ni yn gyfarwydd a hi ym Methlehem.

Ganed un ferch iddynt, sef Ann, ac yn ei thro fe briododd hithau a Mike Gray, ac fel **Ann Gray [27]** y byddem yn gyfarwydd â hi ym Methlehem wedi hynny. (A Rhiannon a Huw Gray, y ddau blentyn a fu'n mynychu'r Ysgol Sul.)

Roedd Phillip, Arthur a Nest yn hoff o actio, ac roedd y ddau frawd yn darlledu ar y radio yn gyson.

Roedd Nan Watkins yn chwaer i Evan Watkins, a ganed iddo ef a'i wraig Mary, un-ar-ddeg o blant, yn eu mysg ferch o'r enw Hannah Maria Watkins. Y hi a ddaeth yn ddiweddarach yn Hannah Berry, yn dilyn ei phriodas yn 1903 a'r **Parchedig R G Berry (1869 - 1945 [28]**), un o weinidogion Bethlehem a fu'n gwasanaethu yma o 1896 hyd 1945.


Tybed faint ohonoch chi'r darllenwyr fydd yn cofio'r aelodau rheini o'r teulu yma oedd ym Methlehem o gyfnod gweinidogaeth y Parchedig Rhys Tudur (1974) ymlaen:-

**Nansi, Siriol, Ben, TW, Trevor, Eunice, Arthur, Nest, Ann a Catherine Beech, ac Ann Gray (a Rhiannon a Huw)?**

Ia, diolch am gwmni a chyfraniad amhrisiadwy aelodau'r "wythïen fawr" cyhyd, er tristed yw cydnabod nad oes yr un ohonynt fwyach yn addoli ym Methlehem.

[Ac os oes gwallau yn yr hyn a gyflwynwyd uchod, ar fy ysgwyddau i yn unig mae'r bai am hynny!] RH.G.J.

**Rhan o Goeden Deulu'r Phillipiaid, Gwaelod-y-garth**
**(O ""Lyfr Cronicl Phillipiaid Gwaelod-y-garth" gan Evan Phillips (mab 'Morgan o'r Lan', Medi 1942)**



# CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

**Marathon Llundain**




Llongyfarchiadau enfawr i ti, Daniel Calan Jones ar gwblhau Marathon Llundain mewn amser anhygoel - 4 awr a 18 munud! Tipyn o gamp!

**Swydd Newydd**

Hefyd llongyfarchiadau i Daniel Calan Jones ar ei swydd newydd fel Prif ffisiotherapydd tim pêl droed dan 16 oed Wrecsam. Bydd yn dechrau ar ei swydd newydd ddechrau Mehefin.

Ers graddio ddwy flynedd yn ôl mae wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gloucester ac yn byw yn Birmingham. Mae hefyd wedi bod yn gweithio rhan amser gyda thîm Academy Aston Villa.

Mae'n falch i gael symud nôl i Gymru ac yn gobeithio trefnu gigs i'w fand Wigwam yn y Saith Seren!

Bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam y flwyddyn nesa - a siwr bydd yna ddigon o gigs ar gael ar lwyfannau'r Ŵyl Fawr! Balch iawn o dy lwyddiant, Daniel ac yn dymuno pob lwc i ti yn dy fis cyntaf - pan fyddi'n siwr o rwbio sgwyddau gyda rhai o sêr Hollywood!

**Owain Glyndwr**

Cofiwch archebu eich tocyn ar gyfer y noson hwyl i'r teulu cyfan a dysgu mwy am hanes Owain Glyndwr. Mai 11eg yw y dyddiad a bydd Geraint Thomas wnaeth greu gêm Owain Glyndwr dros y cyfnod clo yn ein diddanu.

Bydd yr holl elw yn mynd tuag at Eisteddfod Rhondda Cynon Taf. Dewch i gefnogi cyfraniad Creigiau at goffrau'r Eisteddfod

Tocynnau ar gael gan Teleri Jones ar telerij@yahoo.com, Ann Angell, Nia Parker neu Bethan Herbert

**Buddugol eto!**

Llongyfarchiadau i dîm Arian Byw, bois y brêns o Creigiau, ar ennill Cwis y Clwb Rygbi ganol y mis. Nid am y tro cynta daeth Huw, Ian, Tim a Dr Mike yn fuddugol yn y Cwis a drefnir i godi arian i'r Clwb Rygbi. Alun Wyn Bevan oedd y cwis-feistr hynaws a theg - a daeth 19 o dimau at ei gilydd i gefnogi'r noson lwyddiannus hon. Da iawn chi, bois - haeddu'ch gwobrau!

# Ysgol Groes-wen yn dathlu ei hagoriad swyddogol

Ym mis Medi 2024 agorodd ysgol newydd sbon ar gyrion Radur a Phlasmawr ei drysau am y tro cyntaf i groesawu haid o ddisgyblion brwdfrydig; newydd sbon o ran adeiladwaith ac o ran meddylfryd, ac ar y pedwerydd o Fawrth eleni mi gafwyd achlysur arbennig i'w hagor yn swyddogol.

Gweledigaeth ein hysgol hardd ar ystad dai Plasdŵr yng ngorllewin y ddinas yw:

*Gyda'n gilydd yn gryfach, bydd ysgol ddwyieithog Groes-wen yn sefydlu cymuned ysbrydoledig, cynnes a chroesawgar sydd yn dathlu Cymreictod gan ddatblygu amgylchedd cynhwysol a chynaliadwy.*

*Bydd ein plant yn datblygu fel unigolion creadigol, hyderus, egwyddorol, uchelgeisiol a dwyieithog!*

Mae'r adeilad hynod yma'n arloesi mewn sawl ffordd. Nid oes un gronyn o danwydd llygredig yn cael ei losgi yma. Mae'r lle cyfan yn cael ei redeg gan bympiau gwres ffynhonnell aer *(air source heat pumps)* gyda chymorth rhesi o baneli solar ar y to.

Rydyn ni hefyd yn rhan o gynllun teithio llesol cyngor Caerdydd, ac yn annog pawb i ddod yma ar droed, ar feic a sgwteri.

Ond yr elfen fwyaf arloesol yw model ieithyddol yr ysgol. Richard Carbis yw'r pennaeth:-

"Mae ein model Iaith Ddeuol wedi seilio ar ymchwil rhyngwladol. Ein bwriad yw datblygu siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn dathlu eu hunaniaeth. Yng Ngwlad y Basg maent wedi dangos dros y deugain mlynedd diwethaf sut mae Model B ysgolion wedi agor y potensial at ehangu parch a balchder yn yr iaith a dyma'n bendant beth yr ydym hefyd yn anelu ato. Credaf fod angen ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn clywed yr iaith mewn ardal newydd sbon danlli yng Nghaerdydd, nid ond yn yr adeilad ond ar hyd y strydoedd. Mae plant yr ysgol yn ymfalchïo eisoes yn ei gallu i ganu ar hyd Plasdŵr yn y Gymraeg. Fel person o Gaerdydd, mae hi'n fraint ein bod yn gallu normaleiddio defnydd y Gymraeg yn yr ardal hon.

Mae'r model sydd gennym yn galluogi hanner y gwersi yn Gymraeg a hanner yn Saesneg. Yn syml, mae Dyniaethau a Chelfyddydau Mynegiannol yn y Gymraeg a Gwyddoniaeth a Thechnoleg a



Mathemateg yn flaenorol yn Saesneg. Wrth gwrs bydd angen canolbwyntio ar iaith fel focws yr ysgol. Ar sail hyn rydym wedi ffurfio continwwm iaith Groes-wen. Bydd dysgu patrymau iaith ac ati yn allweddol.

Rydym wir eisiau magu disgyblion sydd gyda chariad at ieithoedd, sydd yn cymryd y Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd ysgol, sydd yn dangos parch at eu gilydd ac sydd yn dathlu'r ardal leol ac wrth gwrs Cymru. Yn hyn oll hoffwn bwysleisio, mae ffrwd Cymraeg gennym sydd yn gweithredu mewn union yr un ffordd ag ysgol cyfrwng Cymraeg. Yn wir, mae'r Gymraeg i glywed ym mhob dosbarth ac ar hyd y strydoedd sydd yn arwain at Ysgol Groes-wen!"

Planwyd cannoedd o goed, planhigion a llwynni ar safle eang yr ysgol, a blodau yw enwau'r holl ddosbarthiadau.

Mae yna gylch meithrin a chlwb ar ôl ysgol hefyd. Mae'r Cylch Meithrin yn darparu gofal am blant o 2 - 4 oed mewn ystafell bwrpasol yn adeilad Ysgol Groes-wen. Rydym yn cynnig sesiynau 3 awr yn y bore (8.45 - 11.45) a phrynhawn (12.15 - 3.15) ac hefyd yn rhedeg y clwb ar ôl ysgol tan 6.00 yr hwyr ar gyfer holl blant yr ysgol gyda staff cymwys a phrofiadol. Mae'r cylch ar agor yn ystod tymor ysgol yn unig, ac os am fwy o fanylion, mae croeso i chi gysylltu gyda'r arweinydd, Angharad Evans, drwy e-bost cylchmeithrin.groeswen@gmail.com neu ar y rhif 07958 299 994."

Arweinydd cyngor Caerdydd, y cynghorydd Huw Thomas, a'r aelod cabinet dros addysg, y cynghorydd Sarah Merry, gafodd yr anrhydedd o agor yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gyfleusterau technoleg gwybodaeth ac arlwyo a mannau cyfarfod o'r radd flaenaf ar gyfer eich digwyddiadau bach a mawr, yn ogystal â swyddfeydd ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau, a darpariaethau mwy hir-dymor. Cysylltwch am fanylion.

Englyn hyfryd Gethin Davies sydd efallai'n crynhoi ysgol Groes-wen orau:-

*Ym Mhlasdŵr mae'n cenadwri – ein her*
*yn awr yw cyhoeddi*
*"Gwnawn, mi wnawn ein Groes-wen ni*
*yn oes aur i'w thrysori".*

Arloesedd, brwfrydedd heintus a Chymreictod gweladwy sy'n ein hysbrydolii felly dewch i'n hysgol, yn ddisgyblion, yn rhieni a'n ymwelwyr; mi fydd yna groeso mawr ichi ac mi awn ymlaen yn hyderus, gyda'n gilydd yn gryfach.

Huw Roberts
Gweinyddwr Ysgol Groes-wen



Tîm cwis buddugol - Arian Byw - Ian, Tim, Mike a Huw

# Ysgol Creigiau

**Stroliwch a Roliwch Sustrans**
Rydym wedi ymuno ag ymgyrch 'Stroliwch a Roliwch Sustrans', a'r nod yw ysbrydoli ein disgyblion i wneud teithiau llesol i'r ysgol, gwella ansawdd aer yn y gymuned a darganfod sut mae'r newidiadau hyn o fudd i'w byd. Mae'r disgyblion wedi bod yn cerdded, sgwtera a'n beicio i'r ysgol. Rydym wedi bod yn annog ein teuluoedd i barcio ymhellach i ffwrdd o'r ysgol nag arfer a cherdded gweddill y ffordd.

**Gwersi Nofio**
Yn ystod yr wythnosau diwethaf, mae disgyblion Blwyddyn 4 wedi ymweld â Chanolfan Hamdden y Tyllgoed i dderbyn gwersi nofio. Roedd yr hyfforddwyr wedi eu canmol am eu hymddygiad gwych. Roedd pob un wedi gwella eu sgiliau nofio!

**Diwrnod Syndrom Down y Byd 2024**
Ddydd Iau, Mawrth $21^{ain}$ dathlon ni Ddiwrnod Syndrom Down y Byd 2024 trwy wisgo sanau 'od'/ lliwgar i'r ysgol. Codon ni £321.41 i Mencap sydd yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu.



Dosbarth 5 yn eu sanau lliwgar

**Bwgan Brain Ysgol Creigiau!**
Bu'r Dosbarth Derbyn yn brysur iawn cyn y Pasg yn gwehyddu ein bwgan brain ein hunain ar gyfer cystadleuaeth Cyfeillion yr Ysgol. Mae Mistâr Urdd yn mwynhau croesawu pawb i'r ysgol!

**Water Aid**
Brynhawn Mercher, Mawrth $20^{fed}$ ymwelodd Dave Padfield, o Water Aid, â'r ysgol i gyflwyno gwasanaeth i'n disgyblion CA2. Soniodd am yr holl waith da y mae Water Aid yn ei wneud wrth ddarparu dŵr i ardaloedd a chymunedau nad oes ganddynt ddŵr glân. Cynhaliodd weithdy gyda disgyblion Blwyddyn 5. Edrychon nhw ar sut y gellir glanhau dŵr gan ddefnyddio hidlwyr a chludon nhw 10 litr o ddŵr mewn cynwysyddion mawr o amgylch neuadd yr ysgol i werthfawrogi'r frwydr y mae llawer o gymunedau ledled y byd yn ei hwynebu bob dydd i gael mynediad at ddŵr glân.



**Dathlu Niwroamrywiaeth**
Yn ystod yr wythnos gyntaf yn dilyn y gwyliau Pasg, buom, fel ysgol, yn dathlu Wythnos Niwroamrywiaeth. Yn ystod yr wythnos bu'r disgyblion yn ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau yn eu dosbarthiadau i ddatblygu eu dealltwriaeth o Niwroamrywiaeth.

**Twrnamaint Rygbi**
Ddydd Gwener, Mawrth $19^{eg}$, cystadlodd dau dîm rygbi cyswllt yn Nhwrnamaint yr Urdd a gynhaliwyd ar Gaeau Llandaf. Chwaraeodd y ddau dîm yn ardderchog gyda Thîm A yn colli o gais i ddim mewn gem gynderfynol gystadleuol iawn. Diolch yn fawr iawn i bawb a aeth draw i gefnogi'r timau.





**Gwasanaeth Cwrdd â'r Achubwyr Bywyd**
Fore Iau, fe wnaethom wahodd Liam a Jay, dau achubwr bywyd RNLI, i'n gwasanaeth. Buont yn siarad â'r disgyblion am eu dealltwriaeth o ddiogelwch dŵr a'u hannog i nodi problemau a allai ddigwydd yn ac o amgylch y môr. Roedd y gwasanaethau yn addysgiadol, yn ddiddorol ac yn rhyngweithiol ac roedd pawb wedi mwynhau gwrando ar y negeseuon diogelwch pwysig. Diolch Liam a Jay




Gwrando'n astud ar y negeseuon pwysig

# Wythnos Cynnig Cymraeg

Hoffwn dynnu eich sylw at gynllun y 'Cynnig Cymraeg', sy'n cydnabod ymdrechion cyrff nad ydynt yn dod o dan Safonau'r Gymraeg i greu cynlluniau datblygu'r Gymraeg. Cyrff sector breifat, trydydd sector ac elusennau yw'r rhain yn bennaf. Mae'n gyfle iddynt ddangos eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio.

Caiff wythnos y 'Cynnig Cymraeg' ei chynnal rhwng 13-17 Mai a bydd sylw ar y cyfryngau i'r cynllun ac i'r cyrff sydd wedi derbyn ein cydnabyddiaeth.

Mae dros gant o sefydliadau bellach wedi derbyn y gydnabyddiaeth ac mae rheiny yn cynnwys Aldi, Undeb Rygbi Cymru, Lidl, NSPCC Cymru ac RSPB Cymru.

Mae'r sefydliadau sydd yn derbyn y Cynnig Cymraeg yn awyddus i bobl ddefnyddio eu gwasanaethau Cymraeg, felly hoffwn eich annog i wneud hynny pan mae'r cyfle yn codi.

Gellir gweld mwy am y cynllun ar ein gwefan -
www.comisiynyddygymraeg.cymru
- a byddwn yn gwerthfawrogi eich cymorth i ledu'r gair!

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg



Dosbarth Derbyn yn cwrdd gyda'r Achubwyr Bywyd!

**Gwersi PBuzz**
Daeth Gareth Roberts o Wasanaethau Cerdd Caerdydd i'r ysgol i ddysgu gwersi PBuzz i ddisgyblion Dosbarth 3 a Class 3. Roedd y disgyblion wrth eu boddau'n canu'r offerynnau ac yn symud yn unsain i'r gerddoriaeth.



**Ymchwilio yn y Pwll Broga**
Aeth Dosbarth 1 a Class 1 am dro i'r Pwll Brogaod yn y pentref i gymryd rhan mewn gweithdy ymchwilio yn y pwll dŵr. Buont yn chwilio am greaduriaid, pryfed a phlanhigion. Dysgon nhw enwau gwahanol flodau a choed a daethant o hyd i wahanol bryfed yn y pwll. Wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol cawsant bicnic yn y gysgodfan a bwyta'r pice bach fuon nhw'n coginio.

# Ysgol Llanhari

**Llwyddiant Siarad Cyhoeddus**
Llongyfarchiadau enfawr i dîm siarad cyhoeddus Saesneg blwyddyn 9 a fu'n fuddugol mewn cystadleuaeth wedi ei threfnu gan Rwydwaith Seren yn ddiweddar. Yn dilyn rowndiau blaenorol cystadleuol iawn, cynhaliwyd y rowndiau terfynol ym Mhrifysgol Rhydychen cyn Pasg.



Da iawn Robyn, Dylan, Gwenno a Rosie ynghyd â Megan yr eilydd. Yn dilyn y fuddugoliaeth, derbyniodd y disgyblion wahoddiad gan Luke Fletcher AS a chyn-ddisgybl Llanhari, i seremoni cyflwyno Prif Weinidog newydd Cymru yn y Senedd ym Mae Caerdydd. Diolch o galon i Mrs Carys Lewis o'r adran Saesneg am ei holl waith ac ymroddiad yn hyfforddi'r disgyblion.



**Pob hwyl ym Meifod!**
Bydd hyd at 80 o ddisgyblion o adran uwchradd a chynradd Llanhari yn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod yn ystod gwyliau Sulgwyn. Cafwyd llwyddiant ysgubol yn yr Eisteddfod Sir ac rydyn ni'n edrych ymlaen at gefnogi cynifer o ddisgyblion, yn unigolion, grwpiau, chorau ac unigolion yn yr eisteddfod ym mwynder Maldwyn. Pob lwc i chi a diolch Mrs Guy am yr holl waith.

**Taith Sgio**
Teithiodd y disgyblion hŷn ynghyd ag wyth aelod o staff i Awstria i sgio yn ystod y gwyliau Pasg a chael amser gwych ar y llethrau yn ymarfer eu sgiliau. Yn anffodus, bu'r bws mewn damwain ar y ffordd lawr i Awstria, ac er y gofid, roeddem yn ffodus nad anafwyd y disgyblion a staff. Cawsant ofal arbennig gan y gwasanaethau brys yn yr Almaen a mawr oedd y ganmoliaeth i'r disgyblion. Fel ysgol, rydym yn hynod o ddiolchgar i'r rhieni am eu haelioni a braf oedd gallu gwahodd cynrychiolwyr o gwmni teithio Davey i'r ysgol ychydig wythnosau wedi'r digwyddiad i ddangos ein gwerthfawrogiad i'r gyrrwyr bws.








**Cystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd**
Braf iawn oedd gweld cynifer o dimau bechgyn a merched yn cynrychioli'r ysgol





yng nghystadleuaeth 7 bob ochr yr Urdd yn ddiweddar. Dyma'r nifer mnyaf o dimau i gynrychioli Llanhari ers sawl blwyddyn a gwych oedd gweld brwdfrydedd pawb!

**Clwb garddio**
Ar Ddiwrnod y Ddaear, mwynheuodd y disgyblion blannu blodau newydd a chlirio o gwmpas ein llyn bach. Roedd y mwyafrif yn wen o glust i glust pan ffeindion nhw lwyth o frogaod a phenbyliaid. Diolch am eich gwaith caled.






Parhad tudalen 17 >

# Ysgol Llanhari (Parhad)

**Taith i Bontypridd**

Cafwyd diwrnod i'r brenin yng nghanol mis Ebrill pan aeth holl ddisgyblion blwyddyn 1 i 6 i Barc Ynys Angharad fel sbardun i'r thema 'Dyma ni'n mynd i'r 'Steddfod'. Llwyddodd y disgyblion godi swm sylweddol ar gyfer y daith gerdded noddedig o gwmpas y parc. Dysgon nhw am hanes Evan James a James James ac enwogion eraill o Bontypridd. Yn ogystal â hyn, aeth y disgyblion i'r amgueddfa i ddysgu am hanes Pontypridd, y pyllau glo a thrafnidiaeth yr ardal. Diolch yn fawr i Aled o Calon Taf a fu mor groesawgar gyda ni wrth iddo gyflwyno hanes parc i ni. Bûm yn ffodus iawn gyda'r tywydd a chafwyd cyfle i chwarae yn y parc, bwyta picnic ac hyd yn oed mwynhau lolipop yn yr haul! Roedd y plant wrth eu boddau a phawb yn barod i ddechrau ar y gwaith. Diolch i Mrs Webb am yr holl waith paratoi.












# Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail

**Y Criw Cymraeg 'Ar Ben y Byd'**

Cafodd aelodau o'r Criw Cymraeg gyfle i sgwrsio gyda dysgwyr Cymraeg yn y gymuned tra'n ymweld â chaffi Ar Ben y Byd yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Mrs Ann Owen am drefnu'r digwyddad ac am y diod a'r cacennau hyfryd!



**Gweithdy Rasio Ceir Fformiwla 1**

Bu digyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn hynod brysur yn dylunio a rasio modelau o geir F1 fel rhan o weithdy 'Her Cyflymder' STEM. Diolch i Chris o EESW STEM Cymru am arwain y gweithdy. Roedd y plant wedi cael amser wrth eu boddau yn rasio'r ceir a gweld pa un oedd gyflymaf.



Adeiladu ceir Fformiwla 1 ar gyfer eu rasio



Barod i gychwyn y ras Fformiwla 1



Blwyddyn 6 yn arwain y Clwb Pêl-Rwyd

**Clwb Pêl-Rwyd**

Diolch yn fawr i Ferched Blwyddyn 6 am eu gwaith ardderchog yn hyfforddi'r Clwb Pêl Rwyd ar brynhawniau Mercher yn yr ysgol. Roeddynt yn broffesiynol iawn ac maent wedi dysgu llawer o sgiliau newydd i'r aelodau.

**Gwasanaeth Tân**

Diolch yn fawr i'r gwasanaeth tân am ddod i siarad â disgyblion Blwyddyn 5 a 6. Roeddynt wedi dysgu'r plant am ddiogelwch tân yn y cartref a sut i osgoi tanau rhag cychwyn.



Y Frigad Dân gyda Bl2

**Pêl-Droed**

Roedd y tîm pêl-droed wedi chwarae yn arbennig o dda yn nhwrnament yr Urdd ac roeddent yn hapus gyda'u perfformiad. Maent yn edrych 'mlaen yn awyddus i'r twrnament nesaf i adeiladu ar y perfformiad hyn.



Tîm pêl-droed yr ysgol

**Gorymdaith Hetiau Pasg**

Cafwyd gorymdaith hetiau Pasg liwgar iawn gan blant y Dosbarth Meithrin a Derbyn. Braf oedd croesawu rhieni ac aelodau'r teulu i weld yr orymdaith.



# Ysgol Garth Olwg

**Gig Dadleoli/Gweithdai Eisteddfod Genedlaethol**

Er mwyn codi ymwybyddiaeth ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol, daeth criw'r Eisteddfod i mewn i gynnal gweithdai gyda'r disgyblion. Cafodd disgyblion blwyddyn 10 sy'n astudio Cerddoriaeth fel TGAU'r cyfle i weithio gyda cherddorion gwahanol megis Mali Haf, Glyn o Mellt, Steffan Dafydd ac Elan Evans i greu bandiau a chyfansoddi caneuon.

I gyd fynd gyda hyn, daeth band Dadleoli i mewn i wneud Gig i'r Ysgol Uchaf a Hŷn. Roedd hyn yn brofiad arbennig iawn i'r disgyblion a'r Gig gyntaf erioed i nifer. Yn ogystal â hyn, cafod band o flwyddyn 10 y cyfle i berfformio eu can nhw i gynulleidfa am y tro cyntaf. Roedd llawer o ddawnsio ac mae'r cyffro a bwrlwm yn cynyddu ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf.



**Samba Mark Galozzi-Hibbert**

I ddathlu Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf eleni, bydd yna orymdaith wedi'w dylanwadu gan gerddoriaeth New Orleans. Gwasanaeth Cerddoriaeth Rhondda Cynon Taf sy'n arwain yr orymdaith ac mae disgyblion Ysgol Garth Olwg yn ffodus iawn o gael bod yn rhan ohoni. Mae disgyblion blwyddyn 9 a 10 sy'n astudio Cerddoriaeth eisiau wedi cael sesiynau drymio Samba gyda Mr Hibbert ond bydd disgyblion blwyddyn 7 yn cael cyfle i fynychu gweithdy. 7T oedd y cyntaf i fynychu'r sesiwn ac roedd pawb wrth eu boddau!

**Gwybdaith i Bontypridd**

I ddechrau tymor yr haf, aeth disgyblion blwyddyn 1 a 2 ar daith o amgylch Pontypridd sef cartref Eisteddfod Genedlaethol 2024. Dysgon nhw am hen hanes a straeon diddorol am y dref yn yr amgueddfa a chawsant y cyfle i grwydro o amgylch y parc o dan ofal Aled Humphries.






Yn ogystal, yn ystod y dydd daeth plant o ddosbarth Blodeuwedd o ysgol Evan James i lawr i gwrdd â'r disgyblion a'u dysgu nhw am ffeithiau diddorol y parc. Er gwaethaf y glaw, cafodd y plant diwrnod gwerth chweil.

**Taith i Wlad Belg**

Aeth nifer o ddisgyblion blwyddyn 9 ar daith i Wlad Belg i ddysgu am hanes y Rhyfel Byd Cyntaf ac i brofi diwylliant y wlad. Ceir nifer o weithgareddau gwahanol yn ystod eu hamser yng Ngwlad Belg gan gynnwys clywed am hanes John Mc Crae a phwysigrwydd cerddi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Cafon nhw gyfleoedd dysgu yn yr awyr agored wrth iddyn nhw ymweld â thirnodau pwysig yn hanes y Rhyfel Byd Cyntaf a mynychu 'Seremoni'r Last Post' yn Menin Gate. Yn ogystal â hyn, cafodd y disgyblion y cyfle i fynychu parc antur i fwynhau.



Roedd taith Gwlad Belg yn gyfle arbennig i ddisgyblion a diddordeb mewn Hanes y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yn daith llawn cyfleoedd ddysgu a gweithgareddau hwyl. Enghreifftiau o hyn oedd aethon ni i amgueddfa'r rhyfel. Roedd yn gyfle i ni fel disgyblion cael fwy o





brofiad personol gyda beth ddigwyddodd yn y rhyfel. Wnaethon ni hefyd cael y cyfle i weld llawer o fynwentydd gwahanol. Welon ni tipyn o hanes Cymru yn cynnwys bedd bardd enwog Hedd Wyn. I orffen y dydd aethon ni i Menin Gate i gymryd rhan yn y funud o dawelwch. Ond, roeddwn dal yn cael y siawns i ymlacio yn y parc thema Bellewaerde. Fy hoff reid yn y parc thema oedd 'Boomerang'. Cafon ni'r cyfle gwych i ddysgu ac ymlacio. Cawson ni gyfleoedd i fwyta bwydydd penodol o'r wlad, wnes i fwynhau blasu'r siocled. Hoffwn hefyd diolch i Miss Higgins am drefnu'r daith, ac i'r holl athrawon a ddaeth ar y trip.

Ava Pitman (Blwyddyn 9)

Roedd y daith i Wlad Belg yn gyfle anhygoel i ddysgu a chymdeithasu gyda fy nghyfoedion. Aethom i lawer o leoliadau diddorol fel bedd y bardd Cymraeg; Hedd Wyn, amgueddfa Rhyfel Byd Cyntaf, mynwentydd a buom hefyd i wasanaeth cofio ym Mhorth Menin. . Roeddem yn ffodus iawn i gael tywysydd gwybodus yn dweud llawer o ffeithiau wrthym am yr ardaloedd yr ymwelwyd â hwy.

Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r profiadau addysgol, roeddem hefyd yn gallu bondio â'n gilydd mewn lleoedd hwyliog fel parc thema Bellewaerde, fe wnes i fwynhau mynd ar y reid Wakala yn arbennig.

Roeddwn hefyd wrth fy modd â'r bwyd blasus a ddarparwyd a oedd yn caniatáu i ni drio bwyd o bob rhan o'r wlad ac wrth gwrs, y siocled enwog o Wlad Belg! Diolch i Miss Higgins am drefnu'r daith .

Isaac Price (Blwyddyn 9)

**Cystadleuaeth Parc Roslyn**

Ym mis Mai fe aeth nifer o dimau rygbi bechgyn yr ysgol draw i gystadleuaeth Parc Roslyn. Chwaraeodd pob tîm mewn gemau hynod o gystadleuol yn erbyn rhai o dimau cryfaf yng Nghymru, Lloegr a rhai timau o dramor. Llwyddodd bechgyn blwyddyn 11 i ennill eu gemau ar y diwrnod cyntaf a mynd ymlaen i gystadlu'r ar yr ail ddiwrnod. Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel iawn. Da iawn i bawb!







Parhad tudalen 19 >

## Ysgol Garth Olwg (Parhad)

**Cynrychioli Cymru – Rygbi merched dan 16**

Aeth Ava Gazzard i Ffrainc i gynrychioli Cymru yn rhan o garfan gyntaf erioed dan 16 BGC. Mae bod yn rhan o'r garfan yn gyfle gwych i Ava wrth iddi gyfarfod merched o bob cwr o Gymru sy'n rhannu'r un diddordeb ac angerdd. Maen nhw wedi chwarae timau amrywiol yng Nghymru ac yn Lloegr ac wedi bod yn llwyddiannus iawn o ystyried bod ganddyn nhw gyfleoedd hyfforddi cyfyngedig. Roedd Ava wedi chwarae yn wych ac wedi cael yr anrhydedd i gario'r faner wrth ganu'r anthem. Da iawn ti Ava!





**Cystadleuaeth 7 bob ochr Urdd WRU**

Roedd llawer iawn o dimau wedi mynd draw i gaeau Pontcanna'r wythnos diwethaf i gystadlu yng nghystadlaethau 7's rygbi Urdd. Er gwaethaf rhai o'r anafiadau, roedd pawb wedi chwarae a chystadlu yn wych. Bu bechgyn blwydd 8 yn llwyddiannus gan fynd ym mlaen ac ennill cystadleuaeth y plât. Tebyg iawn oedd hanes merched blwyddyn 7 wrth iddyn nhw gipio'r wobr gyntaf yng nghystadleuaeth y plât. Llongyfarchiadau i bawb oedd yn rhan o'r diwrnodau.







## Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau

**Beat Ball.**

Fel rhan o'n thema chwaraeon, rydym wrthi'n ymgymryd â llwyth o wahanol weithgareddau corfforol y tymor hwn. Daeth Nickie a Rhys o Football First i gynnal sesiynnau Beatball llawn hwyl gyda holl ddisgyblion yr ysgol. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld pwy sy'n gallu sgorio'r gôl cyflymaf y tro nesaf mae nhw'n dod mewn.





**Rhedeg Marathon**

Hefyd fel rhan o'n thema, rydym wedi dechrau ymarfer ar gyfer y TCS Mini Marathon ac yn edrych ymlaen at redeg 2.6 milltir ar Fai y 10fed.



**Ffarwelio a'r myfyrwyr**

Pob hwyl i Ciara, Siriol a Sioned, myfyrwyr TAR sydd wedi bod gyda ni am dymor. Diolch i'r tair ohonynt am eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad yn ystod y lleoliad, a phob hwyl iddynt wrth ddechrau eu gyrfaoedd dysgu.

**Pêl Droed**

Mae clwb pêl-droed Caerdydd yma am y tymor yn datblygu sgiliau pêl-droed i blant blynyddoedd 3-6 ac hefyd yn cynnal clwb ar ôl ysgol sy'n boblogaidd iawn.



**Babi Newydd**

Llongyfarchiadau enfawr i Mrs Haman a'i theulu ar enedigaeth Mari Gwenllian Haman.

**Croesawu plant newydd**

Hyfryd iawn oedd croesawu 6 o blant cyn -feithrin i'r ysgol ar ddechrau'r tymor. Rydym yn medru cynnig llefydd i blant cyn-feithrin pob tymor (i ddechrau Ionawr, Ebrill neu Medi) felly cysylltwch gyda'r ysgol os hoffech mwy o wybodaeth am wneud cais ar gyfer 24-25.

**Estyniad**

Yn gyffrous iawn, cyhoeddwyd yn ddiweddar bod yr ysgol wedi derbyn buddsoddiad ar gyfer estyniad. Bydd hyn yn golygu adeilad Cylch Meithrin parhaus ar y safle ar gyfer plant o dan 3 oed, gyda dosbarthiadau newydd sbon i'r Meithrin a'r Derbyn yn barod ar gyfer mis Medi. Diolchwn i gyngor RhCT ac i'r Llywodraeth am eu cefnogaeth wrth i ni gydweithio i ddarparu fwy o lefydd gofal ac addysg Cymraeg yn yr ardal.

**Beicio / Ymchwiliadau Gwyddonol**

A yw ymarfer corff yn effeithio'n bositif ar yr ymennydd? Dyna oedd cwestiwn ymholi Blwyddyn 5 yr wythnos hon a bu'r disgyblion yn brysur yn cynnal arbrofion cyn ac ar ôl amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys beicio! Ar ôl cyfnod hir o dywydd gwlyb, bu pawb yn teimlo'n hapusach eu bod yn gallu reidio beic.





# Menter Caerdydd

**Newyddion mis Mai**

Mae'r paratoadau yn eu hanterth ar gyfer Gŵyl Fach y Fro a gynhelir ddydd Sadwrn, 18 Mai ar Ynys y Barri. Gan ddechrau am 11:00 y bore, bydd cerddoriaeth fyw i'w chlywed trwy'r dydd gyda'r enwau adnabyddus Fleur De Lys, Lowri Evans, Sage Todz a Parisa Fouladi, Wigwam a Gwcci, a'r band ifanc Dagrau Tân, ymhlith y rhai fydd yn diddanu'r dorf ar y brif lwyfan.

Glanfa Gwynfor bydd cartref yr ysgolion lleol unwaith eto eleni a bydd llwyfan newydd sbon yn dathlu cerddoriaeth werin. Edrychwn ymlaen at groesawu'r gantores Siân Francis, y delynores Bethan Nia, y deuawd Brigyn a'r band Lo-Fi Jones i'r llwyfan newydd.

Un datblygiad cyffrous arall eleni yw'r anthem newydd gan Caryl Parry Jones, Plant y Fro, a'i comisiynwyd yn arbennig ar gyfer yr Ŵyl. Dewch draw i weld plant o bob rhan o Fro Morgannwg yn dod at ei gilydd i gyd-ganu a dawnsio am 2.00 o'r gloch!

Cofiwch hefyd am y gweithdy hwla-hŵp gyda'r Sparklettes a pherfformiadau gwefreiddiol gan Kitsch n Sync a chomisiwn dawns gyfoes newydd gan Osian Meilir o'r enw Mari Ha'. Gyda chyfle i grwydro'r stondinau amrywiol a mwynhau bwyd a diod yn yr awyr iach, bydd rhywbeth i bawb ar Ynys y Barri ar 18 Mai!

*Beth arall sydd ar y gweill gan griw Menter Caerdydd a Menter Iaith Bro Morgannwg yn ystod mis Mai?*

**Cerdded a Chlonc**

Parc y Rhath fydd lleoliad y cyfarfod nesaf gyda chyfle i bawb sy'n mwynhau crwydro a chloncian ymuno â ni am dro bach hamddenol! Mae'n gyfle i siaradwyr rhugl a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg ddod at ei gilydd i sgwrsio yn yr awyr iach. **Bore Iau, 23 Mai, 10:30-12:00. Am ddim.**

**Sgwrs y Mis**

Pwnc 'llosg' go iawn fydd testun ein darlith nos Iau, 23 Mai yng nghwmni Dr Rhian Meara o Brifysgol Abertawe. Mewn sgwrs ar Zoom, cawn fwrw golwg yn ôl ar echdoriad y llosgfynydd Eldfell yng Ngwlad yr Iâ ym 1973. Byddwn yn clywed sut mae'r gymuned leol yn parhau i gofio a choffáu'r digwyddiad 50 mlynedd yn ddiweddarach ac yn gofyn pa gyngor sydd i ardaloedd fel Grindavík ar dir mawr Gwlad yr Iâ lle mae cyfres o echdoriadau newydd yn bygwth dyfodol y dref. **Nos Iau, 23 Mai, 7:30yh. Am ddim.**

**Siaradwyr Newydd**

Cofiwch am y bore coffi ar Zoom, ddydd Gwener ola'r mis (31 Mai am 10:30). Wrth edrych ymlaen at yr haf, byddwn hefyd yn ymuno â Dysgu Cymraeg Caerdydd yn Sain Ffagan ar fore Iau, 13 Mehefin. Mae'r ddau ddigwyddiad yma'n rhad ac am ddim.

**Ymweliad â'r BBC**

Mae'r daith hon bellach yn llawn ond os na lwyddoch i gofrestru y tro hwn, cysylltwch â rachel@mentercaerdydd.cymru. Os bydd digon o ddiddordeb, gallwn drefnu taith arall yn yr hydref.





Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer oedolion, ewch i: https://mentercaerdydd.cymru/cy/oedolion

**Gweithgareddau Gwyliau i Blant Oed Cynradd**

Yn dilyn llwyddiant y cynllun 'Gofal' ychwanegol yn Ysgol y Berllan Deg dros wyliau'r Pasg, byddwn yn parhau i gynnig y gwasanaeth mewn tri lleoliad dros y Sulgwyn. Bydd gofal ar gael am £32 y dydd yn ysgolion Treganna a Melin Gruffydd o ddydd Mawrth hyd ddydd Gwener, ac yn Ysgol y Berllan Deg ar ddydd Mawrth a dydd Mercher. Bydd ein cynllun chwarae agored rhad ac am ddim, Bwrlwm, yn cael ei gynnal yn ôl yr arfer, mewn lleoliadau amrywiol o gwmpas y brifddinas a Bro Morgannwg. Cewch hyd i fanylion pellach ar ein gwefan

Am fwy o wybodaeth am ein gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifainc, ewch i:
https://mentercaerdydd.cymru/cy/plant-a-phobl-ifanc

**Gwefan: mentercaerdydd.cymru**
**Facebook: @m.caerdydd**
**Instagram: @mentercaerdydd**
**E-bost: post@mentercaerdydd.cymru Ffôn: 029 2068 9888**

